# Cynllun Pensiynau'r Heddlu 2015

# Canllaw i Aelodau

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 6

2. Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2015 “canllaw cyflym” ..... 8

   2.1 Nodweddion allweddol ..... 8

   2.2 Buddion pensiwn i aelodau ..... 8

   2.3 Buddion i eraill ar farwolaeth aelod ..... 9

   2.4 Nodweddion eraill ..... 10

   2.5 Ymddeoliad afiechyd gorfodol a phensiynau afiechyd ..... 10

   2.6 Pwyntiau eraill ..... 11

3. Aelodaeth o’r cynllun ..... 12

   3.1 Aelodaeth a chymhwysedd ..... 12

   3.2 Cofrestru awtomatig ..... 13

   3.3 Dewis eithrio ..... 13

   3.4 Cyfleoedd i ailymuno yn nes ymlaen ..... 15

4. Ymddeoliad a’r buddion y byddwch yn eu derbyn ..... 17

   4.1 Pensiwn ymddeoliad ..... 17

   4.2 Oedran ymddeol ..... 18

   4.3 Cyfrifo eich pensiwn dan Gynllun 2015 ..... 19

   4.4 Gwasanaeth pensiynadwy dan Gynllun 2015 ..... 19

   4.5 Enillion pensiynadwy ..... 20

   4.6 Buddion ar ymddeoliad ..... 21

   4.7 Gweithio rhan-amser ..... 24

   4.8 Pensiwn gohiriedig ..... 25

   4.9 Talu pensiwn gohiriedig yn gynnar heblaw ar sail afiechyd ..... 26

5. Cyfraniadau ..... 26

   5.1 Eich cyfraniadau ..... 26

5.2 Cyfraniadau absenoldeb di-dâl ........ 28

5.3 Ad-dalu cyfraniadau ........ 28

6. Ymddeoliad afiechyd gorfodol a thalu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd ........ 29

6.1 Cyfeirio at Ymarferwyr Meddygol a Ddewiswyd (SMP) ........ 31

6.2 Pensiwn afiechyd haen isaf ........ 31

6.3 Pensiwn afiechyd haen uchaf wedi ei gynyddu ........ 33

6.4 Gostyngiad yn y pensiwn afiechyd oherwydd eich diffyg chi ........ 36

6.5 Adolygu anaddasrwydd meddygol ........ 37

6.6 Ad-dalu cyfraniadau ........ 38

6.7 Talu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd ........ 39

6.8 Budd niwed ........ 39

7. Apêl a chwynion ........ 40

7.1 Cyffredinol ........ 40

7.2 Apeliadau Meddygol ........ 40

7.3 Apeliadau i Lys y Goron ........ 41

7.4 Apeliadau at yr Ysgrifennydd Gwladol ........ 41

7.5 Gweithdrefnau datrys anghydfod mewnol ........ 42

7.6 Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau (TPAS) ........ 42

7.7 Yr Ombwdsmon Pensiynau ........ 43

7.8 Y Rheoleiddiwr Pensiynau ........ 43

8. Hyblygrwydd y cynllun ........ 44

8.1 Dewis i brynu’r gostyngiad taliad cynnar ........ 44

8.2 Dewis i ychwanegu at bensiwn ........ 44

8.3 Dewis i ohirio talu pensiwn ymddeoliad ychwanegol ........ 45

8.4 Y dewis i gymudo rhan o’r pensiwn am gyfandaliad ........ 46

9. Ysgariad a diddymu partneriaethau sifil ........ 47

10. Buddion i oroeswyr os byddwch yn marw ........ 49
10.1 Buddion goroeswyr ........ 49
10.2 Buddion oedolyn sy'n goroesi ........ 49
10.2.1 Eich priod neu bartner sifil. ........ 50
10.2.2 Partneriaid a ddatganwyd ........ 51
10.3 Plant sy'n goroesi ........ 52
10.4 Cyfandaliad grant marwolaeth ........ 54
10.5 Arian rhodd marwolaeth – ystâd ........ 56
10.6 Arian rhodd marwolaeth – dibynnydd ........ 56
11. Trosglwyddo buddion i Gynllun 2015 ac allan ohono ........ 56
11.1 Trosglwyddo buddion pensiwn i mewn ........ 56
11.1.1 Symud rhwng lluoedd heddlu ........ 57
11.2 Trosglwyddo buddion pensiwn allan ........ 57
11.2.1 Trosglwyddiadau i gynlluniau pensiwn eraill ........ 58
12. Diogeliad sy'n cyfyngu ac aelodau gyda hawliau wedi eu crynhoi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 ........ 59
12.3 Hawliau wedi eu crynhoi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006. ........ 60
12.4 Diogeliad sy'n cyfyngu ........ 62
12.5 Trosglwyddiadau buddion pensiwn i mewn ........ 63
12.5.1 Trosglwyddiadau i mewn o glwb trosglwyddo'r sector cyhoeddus ........ 63
12.6 Trosglwyddo buddion pensiwn allan ........ 64
12.6.1 Symud rhwng lluoedd heddlu ........ 64
13. Talu buddion ........ 65
13.1 Trefniadau cyffredinol ........ 65
13.2 Buddion pensiwn y wladwriaeth ........ 65
13.3 Pensiynau yn cynyddu gyda chwyddiant ........ 67
14. Ail-benodi ........ 68

15. Amrywiol ........ 69
15.1 Fforffedu buddion ........ 69
15.2 Dim aseinio buddion ........ 69
15.3 Colli buddion ........ 70
15.4 Diwygiadau i'r cynllun ........ 70
15.5 Cyfyngiadau Cyllid EM ........ 70
15.6 Y Gwasanaeth Olrhain Pensiwn ........ 71
Diogeliad llawn neu sy'n cyfyngu yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006 ........ 72
Diogeliad Trosiannol Llawn ........ 72
Trosglwyddiadau i mewn ac allan o fewn y Clwb Trosglwyddo Sector Cyhoeddus ........ 73
Cymhariaeth rhwng Cynllun 2015, Cynllun 1987 a Chynllun 2006 ........ 75
Geirfa ........ 80

## 1. Cyflwyniad

Mae hanes hir i bensiynau'r heddlu, yn dyddio yn ôl i 1829 pan gyflwynodd y Ddeddf Heddlu Metropolitan fuddion penodol ar anabledd (a elwir yn awr yn anaddasrwydd meddygol) i swyddogion Llundain oedd "wedi ymlâdd oherwydd hyd eu gwasanaeth". Daeth cynllun pensiwn llawn i bob aelod o lu heddlu ar gael yn 1890.

Gwelwyd llawer o newidiadau ers hynny, ond mae hawl i bensiwn yr heddlu wastad wedi cael ei ystyried yn elfen allweddol o gydnabyddiaeth yr aelodau i'w galluogi i ymgymryd â'u gwaith â hyder. Bwriadwyd y trefniant presennol, a elwir yn 'Gynllun Pensiwn yr Heddlu' (Cynllun 2015) i sicrhau bod hawl i bensiwn yn parhau yn elfen allweddol. Sefydlir Cynllun 2015 gan Reoliadau (Rheoliadau Pensiynau'r Heddlu 2015) a wnaed dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae Cynllun 2015 yn darparu ar gyfer talu pensiynau a buddion eraill i aelodau o luoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr neu mewn cysylltiad â nhw.

Bwriadwyd y canllaw hwn i esbonio'r prif fanylion mewn iaith gliriach nag a ddefnyddir yn y rheoliadau, er y dylid cofio **na all dim byd yn y canllaw hwn fod yn drech na'r rheoliadau.**

Daw Cynllun 2015 i rym ar 1 Ebrill 2015. Roedd aelodau a gychwynnodd yn y llu heddlu cyn y dyddiad hwnnw yn medru ymuno â Chynllun Pensiwn yr Heddlu 1987 (Cynllun 1987) neu Gynllun Pensiwn Newydd yr Heddlu 2006 (Cynllun 2006). **Mae'r canllaw hwn yn bennaf yn berthnasol i aelodau o Gynllun 2015** (aelodau). **Mae yma wybodaeth hefyd sy'n berthnasol i aelodau llu heddlu gyda Diogeliad Trosiannol Llawn neu Sy'n Cyfyngu yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006 (gweler Atodiad A). Mae canllawiau ar wahân i'r rhai sy'n parhau yn aelodau o Gynllun 1987 neu Gynllun 2006.**

Mae buddion niwed yn parhau ar wahân i'r cynlluniau pensiwn ac yn cael eu rheoli gan reoliadau ar wahân. Bydd cyfarwyddyd ar fuddion niwed ar gael ar wahân.

**Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i aelodau llu heddlu yng Nghymru a Lloegr yn unig.** Er bod Cynllun 2015 yn ymestyn i Gymru a Lloegr, mae'n cael ei weinyddu yn lleol

gan bob llu heddlu.  Sylwer bod cynllun gwahanol wedi ei sefydlu ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon.  Os oes unrhyw bwyntiau y byddech yn hoffi cael rhagor o help ynglŷn â nhw, cysylltwch â'r gweinyddwr pensiynau ar gyfer eich llu. Bydd ganddo/ganddi gopi o'r rheoliadau, y byddwch yn gallu cyfeirio ato os dymunwch.

Os nad ydych yn siŵr ble gallwch chi ddod o hyd i weinyddwr pensiynau eich llu heddlu, dylai eich adran adnoddau dynol neu bersonél fedru cynnig y cyswllt iawn i chi.  Fel arall, **mae rhestr lawn o'r gweinyddwyr pensiynau i bob llu yng Nghymru a Lloegr ar wefan gov.uk website yn:**
https://www.gov.uk/government/publications/police-pension-administrator-contacts-england-and-wales

Ar dudalen gartref y Swyddfa Gartref ar wefan gov.uk mae nifer o dudalennau yn ymwneud â phensiynau'r heddlu. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth am y tri chynllun pensiwn a buddion niwed, gan gynnwys unrhyw newidiadau diweddar a dolenni i reoliadau a chyfarwyddyd.

Mae'r adrannau isod yn rhoi gwybodaeth fwy manwl am Gynllun 2015.  Yn Adran 2 mae canllaw cyflym i'r cynllun, sy'n crynhoi'r prif elfennau. **Mae'r wybodaeth yn y canllaw hwn yn defnyddio iaith glir pan fydd hynny'n bosibl, ond weithiau ni ellir osgoi defnyddio termau arbenigol yng nghyswllt pensiynau.  Esbonnir y prif dermau arbenigol yn yr eirfa yn Atodiad C.**

# 2. Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2015 “canllaw cyflym”

Bydd gan lawer o’n haelodau fydd yn ymuno â Chynllun 2015 ar 1 Ebrill 2015 (a’r rhai sy’n ymuno â Chynllun 2015 ar ddiwedd eu Cyfnod Diogeliad sy’n Cyfyngu) wasanaeth hefyd dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006. Bydd yr hawliau y mae’r aelodau wedi eu crynhoi o Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 yn cael eu diogelu (gweler adran 12 ‘Diogeliad sy’n cyfyngu ac aelodau sydd â hawliau wedi eu crynhoi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006).

## *2.1 Nodweddion allweddol*

- Mae Cynllun 2015 yn gynllun pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrisio (CARE). Mae hyn yn golygu, ar gyfer pob blwyddyn yr ydych yn Aelod Gweithredol, y byddwch yn ennill ffracsiwn o’ch Enillion Pensiynadwy (1/55.3) am y flwyddyn honno fel pensiwn a enillwyd a bydd hyn yn cael ei ailbrisio ar gyfer pob blwyddyn ddilynol nes byddwch yn ymddeol.
- Bydd pensiwn a enillwyd yn cael ei ychwanegu at eich cronfa bensiwn ym mhob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy dan Gynllun 2015, a bydd yn cael ei ailbrisio ar ddiwedd pob blwyddyn.
- Os byddwch yn gweithio llawn amser neu’n rhan-amser mae eich pensiwn a enillwyd yn cael ei lunio yn yr un ffordd.
- Ariennir Cynllun 2015 gan y cyfraniadau gan aelodau a’r Awdurdodau Pensiynau Heddlu (e.e. y Prif Gwnstabl).

## *2.2 Buddion pensiwn i aelodau*

- Yr Oedran Pensiwn Arferol (NPA) yw 60 oed.
- Yr Oedran Pensiwn Isaf Arferol (NMPA) yw 55 oed.
- Mae gennych y dewis o ymddeol ar unrhyw adeg ar ôl yr NMPA ac i gael eich pensiwn ar unwaith; os byddwch yn penderfynu ymddeol gyda thaliad pensiwn yn union ar ôl eich NMPA a chyn eich NPA, bydd eich buddion Cynllun 2015 yn cael eu gostwng yn actwaraidd trwy gyfeirio at yr NPA.

- Gallwch barhau yn Aelod Gweithredol o Gynllun 2015 cyn hired ag y dymunwch (nid oes uchafswm ar y cyfnod gwasanaeth). Os byddwch yn penderfynu parhau i wasanaethu tu hwnt i'r NPA bydd cynnydd actwaraidd yn cael ei weithredu ar eich pensiwn gan y bydd yn cael ei dalu yn hwyrach nag y byddai dan amgylchiadau arferol.
- Tra byddwch yn Aelod Gweithredol, y gyfradd ailbrisio a ddefnyddir ar ddiwedd pob Blwyddyn Cynllun (31 Mawrth) ar y pensiwn a enillwyd a grynhowyd ar gyfer y flwyddyn honno yw'r symudiad yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) + 1.25%. Y swm wedi ei ailbrisio sy'n ffurfio'r balans agoriadol ar gyfer eich pensiwn am y Flwyddyn Cynllun nesaf.
- Ar gyfer pob Blwyddyn Cynllun yr ydych chi yn Aelod Gweithredol o Gynllun 2015, mae eich pensiwn a enillwyd yn 1/55.3fed o werth eich Enillion Pensiynadwy am y Flwyddyn Cynllun honno (wedi eu huwchraddio o CPI + 1.25%).
- Mae'r pensiynau a delir i aelodau yn cael eu cynyddu yn flynyddol yn unol â'r CPI dan Ddeddf Pensiynau (Cynyddu) 1971.

## *2.3 Buddion i eraill ar farwolaeth aelod*

Pe baech yn marw a chithau'n dal yn Aelod Gweithredol yna:

- Mae grant marwolaeth cyfandaliad yn daladwy (gweler adran 10.4 'Grant marwolaeth cyfandaliad'). Mae'r taliad yn 3 gwaith eich Cyflog Terfynol os oedd cyfnod eich gwasanaeth yn 12 mis o leiaf (fel arall mae'n 3 gwaith eich cyflog terfynol ar raddfa flynyddol).

Os byddwch yn marw tra byddwch yn dal yn aelod o Gynllun 2015:

- Telir pensiwn i'ch priod neu bartner sifil am weddill ei oes/ei hoes.
- Gall partner nad yw'n briod nac yn bartner sifil fod â hawl i daliad pensiwn am oes, yn ddibynnol ar fod wedi llenwi'r datganiad gofynnol (gweler adran 10.2.2 'Partneriaid a ddatganwyd').
- Gall plant cymwys dan 23 oed fod yn gymwys i gael pensiwn.

## 2.4 Nodweddion eraill

- Byddwch yn gallu cymudo rhan (hyd at 25%) o'ch pensiwn ar gyfradd o 1:12; felly am bob £1 o bensiwn y byddwch yn ei ildio byddwch yn derbyn cyfandaliad o £12.
- Os byddwch yn crynhoi hawliau yng Nghynllun 2015 ond yn gadael y llu heddlu (neu yn dewis eithrio o Gynllun 2015), heb gymryd pensiwn nac ad-daliad o'ch cyfraniadau, bydd gennych hawl i Bensiwn Gohiriedig yn daladwy o'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (SPA).
- Os byddwch chi wedi crynhoi buddion yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006, bydd y buddion hynny yn aros yn y cynllun hwnnw.
- Gall Aelod Gweithredol ddewis gadael Cynllun 2015 (gweler adran 3.3 'Dewis eithrio').

## 2.5 Ymddeoliad afiechyd gorfodol a phensiynau afiechyd

Mae gan yr Awdurdod Pensiwn Heddlu hawl i ymddeol aelod ar sail feddygol.

Mae dwy lefel o bensiwn afiechyd a all ddod yn daladwy dan Gynllun 2015 (bydd aelodau gyda gwasanaeth blaenorol yng Nghynllun 1987 a Chynllun 2006 nad ydynt wedi cyrraedd NPA yn derbyn pensiwn afiechyd sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth yn eu cynllun presennol):

- Haen Isaf, yn daladwy os ydych yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu ond nad ydych yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer unrhyw waith arferol. Os cewch ymddeoliad gorfodol ar y seiliau hyn, bydd gennych hawl i daliad pensiwn afiechyd haen isaf ar unwaith a bydd gennych y dewis i gymudo rhan ohono yn gyfandaliad. Bydd eich buddion yn cael eu cyfrifo ar sail y swm o bensiwn yr ydych wedi ei grynhoi ar adeg eich ymddeoliad afiechyd. Ni fydd gostyngiad am daliad cynnar ac ni ychwanegir ato.

- Haen Uchaf gydag Ychwanegiad, yn daladwy os ydych yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu a hefyd yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer unrhyw waith arferol. Os yw hyn yn wir byddwch yn derbyn y pensiwn hwn yn ychwanegol at y pensiwn afiechyd haen isaf.

Pennir lefel yr anaddasrwydd meddygol gan Ymarferwr Meddygol Dethol (SMP) ac mae hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau meddygol. Bydd pensiwn afiechyd yn cael ei gynyddu yn unol â'r CPI cyhyd ag y bydd yn cael ei dalu. Gall Awdurdodau Pensiwn yr Heddlu adolygu talu pensiynau afiechyd ar gyfnodau cyson.

Hyd yn oed os bydd SMP yn pennu eich bod yn feddygol anaddas yn barhaol, nid yw'n dilyn yn awtomatig y byddwch yn cael ymddeoliad afiechyd. Bydd Awdurdod Pensiwn yr Heddlu yn ystyried a oes dyletswyddau gwahanol y gallech eu cyflawni ac aros yn y gwasanaeth (gan ystyried eich gallu yn gyffredinol).

Mae trefniadau ar wahân ar gyfer talu buddion niwed i aelodau o'r llu heddlu sy'n cael niwed ar ddyletswydd. Gellir gweld y manylion yn Rheoliadau Buddion Niwed yr Heddlu.

## 2.6 Pwyntiau eraill

- Ar hyn o bryd, cyfyngir prynu pensiwn ychwanegol (lle gallwch chi gynyddu eich pensiwn trwy dalu cyfraniadau ychwanegol) i £6,500 y flwyddyn. Gall y cyfyngiad gael ei newid gan Drysorlys EM (HMT). Ail-brisir pensiwn ychwanegol yn ôl CPI yn unol â Deddf Pensiynau (Cynyddu) 1971.
- Nid oes gan Gynllun 2015 drefniant Cyfraniad Ychwanegol Gwirfoddol (AVC) ffurfiol, ond mae gennych y dewis o wneud cyfraniadau i gynllun pensiwn personol ar wahân yn ychwanegol at eich cyfraniadau at Gynllun 2015 o fewn cyfyngiadau a bennir gan HMRC.
- Mae'n bosibl i Bensiynau Gohiriedig (sy'n daladwy yn llawn ar eich SPA) gael eu talu yn gynnar os gofynnir amdanynt, ond bydd hyn yn ddarostyngedig i

Ostyngiad Actwaraidd i adlewyrchu eu bod yn cael eu talu yn gynharach ac am gyfnod hwy.

- Gall Pensiynau Gohiriedig hefyd gael eu talu yn gynnar pan fydd Aelod Gohiriedig yn anaddas yn feddygol yn barhaol am waith arferol. Nid yw'r rhain yn ddarostyngedig i Ostyngiad Actwaraidd.

# 3. Aelodaeth o'r cynllun

## *3.1 Aelodaeth a chymhwysedd*

O 1 Ebrill 2015 rydych yn cael eich cofrestru yn awtomatig ar Gynllun 2015 wrth gael eich penodi i lu heddlu oni bai eich bod yn penderfynu dewis eithrio (gweler adran 3.3. 'Dewis eithrio'). Wrth ymuno â llu heddlu, efallai y gofynnir i chi gael archwiliad meddygol (am ddim) fel bod yr Awdurdod Pensiwn Heddlu yn gallu penderfynu a ydych ym gymwys i gael buddion afiechyd (Nid yw hyn yn berthnasol i gyn-aelodau o Gynllun 1987 na Chynllun 2006 sy'n ymuno â Chynllun 2015 ar 1 Ebrill 2015 neu ar ddiwedd eu Cyfnod Diogeliad sy'n Cyfyngu). Os bydd Awdurdod Pensiwn yr Heddlu yn penderfynu (ar ôl apêl) bod cost debygol rhoi buddion yn anghymesur o uchel, gallwch barhau i ymuno â Chynllun 2015 a thalu cyfraniadau is ond ni fyddwch yn derbyn buddion afiechyd. Bydd eithriad o fuddion afiechyd dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 hefyd yn cynnig eithriad o fuddion afiechyd dan Gynllun 2015.

Mae'n bosibl i chi fod yn aelod o Gynllun 2015 a chyfrannu at gynlluniau pensiwn eraill, fel cynllun pensiwn personol, yr un pryd. Cynghorir chi i gysylltu â chynghorydd ariannol os oes gennych ddiddordeb yn hyn.

Os ydych yn (neu yn ystyried) symud rhwng lluoedd heddlu a/neu fod gennych fwlch yn eich gwasanaeth (neu eich bod yn ystyried un), gall amodau gwahanol fod yn berthnasol yn ôl eich amgylchiadau unigol. Dylech gysylltu â'ch gweinyddwr pensiynau yn gyntaf fel eich bod yn gwybod am unrhyw ganlyniadau posibl.

## *3.2 Cofrestru awtomatig*

Mae cofrestru awtomatig yn golygu y bydd eich Awdurdod Pensiwn Heddlu yn eich cofrestru yn awtomatig ar Gynllun 2015 ar eich diwrnod cyntaf o Wasanaeth Cymwys dan Gynllun 2015.

Os byddwch yn dewis eithrio o Gynllun 2015 byddwch yn cael eich ail-gofrestru yn awtomatig ar Gynllun 2015 bob 3 blynedd ar eich dyddiad ail-gofrestru awtomatig. Os dymunwch barhau wedi eich eithrio, bydd raid i chi ddewis eithrio cyn pen un mis; bydd hyn yn cael ei ôl-ddyddio o'r dyddiad ail-gofrestru awtomatig.

**Os byddwch chi yn ystyried dewis eithrio o Gynllun 2015 neu Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 fe'ch argymhellir yn gryf i gael cyngor ariannol annibynnol cyn i chi wneud penderfyniad.**

## *3.3 Dewis eithrio*

Gallwch ddewis eithrio o Gynllun 2015 ar unrhyw adeg trwy anfon hysbysiad ysgrifenedig i'ch Awdurdod Pensiwn Heddlu. Os byddwch chi'n dewis eithrio yn y tri mis cyntaf ar ôl ymuno â'r llu heddlu, mae eich penderfyniad yn cael ei ôl-ddyddio i'r dyddiad y daethoch yn aelod o'r llu heddlu. Os byddwch yn dewis gadael Cynllun 2015 ar unrhyw ddyddiad yn y dyfodol, bydd eich penderfyniad yn dod i rym o ddechrau eich cyfnod tâl nesaf ar ôl i'ch Awdurdod Pensiwn Heddlu dderbyn eich hysbysiad dewis eithrio neu ar unrhyw ddyddiad wedyn y mae eich Awdurdod Pensiwn Heddlu yn ei ystyried yn addas.

Os byddwch yn dewis eithrio o Gynllun 2015 gallwch ail-ymuno os dymunwch. Gall hyn fod yn amodol ar archwiliad meddygol, ar eich traul chi, i benderfynu a fyddwch yn gymwys i gael buddion afiechyd. Byddwch yn cael eich ail-dderbyn ar Gynllun 2015 ar ddechrau eich cyfnod tâl nesaf (gyda neu heb fynediad at fuddion afiechyd) ar ôl i'ch Awdurdod Pensiwn Heddlu dderbyn eich hysbysiad dewis ymuno neu ar unrhyw ddyddiad wedyn y mae eich Awdurdod Pensiwn Heddlu yn ei ystyried yn addas.

Ond os byddwch yn dewis eithrio cyn pen 12 mis o ddewis ymuno, ni fyddwch yn medru dewis ymuno eto hyd ddiwedd y cyfnod hwnnw o 12 mis.

Bydd nifer o ganlyniadau i ddewis eithrio o Gynllun 2015, gan gynnwys:

- Os byddwch yn cronni dwy flynedd neu fwy o Wasanaeth Cymwys ac yna yn dewis eithrio, dim ond hawl i Bensiwn Gohiriedig fydd gennych. Byddai eich buddion Cynllun 2015 yn daladwy yn llawn o'ch SPA, neu gallwch gymryd Pensiwn Gohiriedig wedi ei ostwng yn actwaraidd o'r NMPA (sy'n cael ei gyfrifo trwy gyfeirio at eich SPA), a byddai unrhyw fuddion yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006 yn daladwy o'r oedran y mae eich pensiwn gohiriedig yn y cynllun hwnnw yn daladwy (60 yn gyffredinol yng Nghynllun 1987 a 65 yng Nghynllun 2006).

- Os byddwch yn marw tra byddwch yn dal i wasanaethau fel aelod o lu heddlu ond nad ydych yn aelod oherwydd eich bod wedi dewis eithrio o Gynllun 2015 (h.y. rydych yn Aelod Gohiriedig) ni fyddwch yn gymwys i gael buddion marwolaeth mewn gwasanaeth ac felly nid oes grant marwolaeth cyfandaliad yn daladwy. Gall pensiwn oedolyn sy'n goroesi a phensiwn plentyn cymwys fod yn daladwy pan fyddwch farw.

- Os nad ydych yn Aelod Gweithredol o Gynllun 2015 ni fyddwch yn gymwys am bensiwn afiechyd os byddwch yn gadael y llu heddlu oherwydd eich bod yn anaddas yn feddygol yn barhaol. Os ydych yn Aelod Gohiriedig sydd wedi gadael y llu heddlu, efallai y byddwch yn gymwys am daliad cynnar o'ch Pensiwn Gohiriedig ar sail afiechyd os cewch eich asesu fel rhywun anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer unrhyw waith arferol a'ch bod yn gymwys i gael buddion afiechyd.

Mae nifer o fanteision sylweddol o aros yn Aelod Gweithredol o Gynllun 2015, gan gynnwys:

- Mae pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn parhau yn un o'r pensiynau gorau sydd ar gael.
- Mae cael pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn ffordd effeithlon o ran treth ac effeithiol o gynilo ar gyfer eich ymddeoliad.
- Bydd Cynllun 2015 yn cynnig lefel gwarantedig o bensiwn sy'n seiliedig ar ffracsiwn o'ch Enillion Pensiynadwy ar gyfer pob Blwyddyn Cynllun (1/55.3) sy'n cael ei uwchraddio bob blwyddyn tan eich ymddeoliad. Pan fyddwch yn ymddeol uwchraddir eich pensiwn a enillwyd yn ôl y CPI yn unol â Deddf Pensiynau (Cynyddu) 1971. Mewn Cynllun Pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig byddai eich pensiwn o swm anhysbys ar sail yr enillion o fuddsoddiadau.
- Yn ychwanegol at eich cyfraniad eich hun, mae eich Awdurdod Pensiwn Heddlu yn rhoi cyfraniad sylweddol at eich pensiwn.
- Rydych yn cael rhyddhad treth ar eich cyfraniadau pensiwn a hyd 6 Ebrill 2016 byddwch hefyd yn talu cyfradd is o gyfraniad yswiriant gwladol gan fod Cynllun 2015 yn gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus wedi ei gontractio allan (o 6 Ebrill 2016 bydd contractio allan yn peidio â bod ar gael i unrhyw gynllun).
- Mae Cynllun 2015 yn cynnig buddion gwerthfawr i chi a'ch teulu fel pensiynau afiechyd a phensiynau i oroeswyr.

Os byddwch yn dewis eithrio o Gynllun 2015 gyda llai na 2 flynedd o Wasanaeth Cymwys ac nad ydych wedi trosglwyddo unrhyw wasanaeth i mewn, bydd eich cyfraniadau pensiwn yn cael eu had-dalu. Bydd yr ad-daliad yn ddarostyngedig i'r rheolau treth perthnasol.

**Os byddwch chi yn ystyried dewis eithrio o Gynllun 2015 fe'ch argymhellir yn gryf i gael cyngor ariannol annibynnol cyn i chi wneud penderfyniad**.

## *3.4 Cyfleoedd i ailymuno yn nes ymlaen*

Os ydych yn dychwelyd i'r llu heddlu ar ôl bwlch yn eich gwasanaeth (nid yw hyn yn cynnwys seibiant gyrfa) nad yw'n hwy na 5 mlynedd, efallai y byddwch yn medru crynhoi buddion y dyfodol yng Nghynllun 2015.

Os dewch chi yn Aelod Gweithredol o Gynllun 2015 eto ar ôl bwlch yn eich gwasanaeth nad yw'n hwy na 5 mlynedd bydd eich pensiwn Cynllun 2015 yn cael ei ailbrisio fel petaech, yn ystod y bwlch yn eich gwasanaeth, yn Aelod Gweithredol (h.y. wedi ei ailbrisio yn unol â CPI+1.25% y flwyddyn) ond fel petaech heb dderbyn unrhyw Enillion Pensiynadwy.

**Fe'ch cynghorir yn gryf i wirio eich sefyllfa gyda'ch gweinyddwr pensiynau o ran diogelu eich hawliau a grynhowyd a diogeliadau eraill dan Gynllun 1987 a Chynllun 2006.**

Os dewch chi yn Aelod Gweithredol o Gynllun 2015 eto ar ôl bwlch yn eich gwasanaeth sy'n fwy na 5 mlynedd, bydd y pensiwn sydd wedi ei grynhoi dan Gynllun 2015 cyn eich bwlch mewn gwasanaeth yn Bensiwn Gohiriedig a bydd yn cael ei ailbrisio yn unol â CPI yn flynyddol o'r dyddiad pan wnaethoch gychwyn ar eich bwlch mewn gwasanaeth. Bydd y pensiwn wedi ei grynhoi yn ystod eich cyfnod gwasanaeth presennol fel Aelod Gweithredol yn cael ei ailbrisio yn unol â CPI+1.25% y flwyddyn tra byddwch yn parhau yn Aelod Gweithredol.

**Ar gyfer dibenion y Ddolen Cyflog Terfynol (a ddefnyddir i gyfrifo buddion dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006), bydd gwasanaeth dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 yn cael ei gymryd fel petai'n dod i ben pan wnaethoch gychwyn ar eich bwlch gwasanaeth, felly fe'ch cynghorir yn gryf i wirio eich sefyllfa gyda'ch gweinyddwr pensiynau.**

# 4. Ymddeoliad a'r buddion y byddwch yn eu derbyn

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ymwneud â'r rhai sydd ag o leiaf ddwy flynedd o Wasanaeth Cymwys.

Os oes gennych ddwy flynedd o leiaf o Wasanaeth Cymwys a'ch bod yn Aelod Gweithredol o Gynllun 2015 byddwch yn gallu ymddeol o'ch NPA (neu o'ch NMPA ond bydd hyn yn ddarostyngedig i Ostyngiad Actwaraidd) gyda phensiwn ar unwaith.

**Rhaid i Aelod Gweithredol sydd yn bwriadu ymddeol hawlio taliad y pensiwn, gan roi mis o rybudd ysgrifenedig o leiaf.**

## *4.1 Pensiwn ymddeoliad*

Dyfernir pensiwn ymddeoliad wrth ymddeol ar ôl cwblhau o leiaf ddwy flynedd o Wasanaeth Cymwys os ydych wedi cyrraedd NMPA. Fel y nodir uchod, sylwer y bydd gofyn i chi roi hysbysiad o'ch bwriad i hawlio eich pensiwn.

Mae Gwasanaeth Cymwys yn golygu hyd calendr unrhyw gyfnod parhaus o wasanaeth pensiynadwy dan Gynllun 2015 (heb gynnwys unrhyw fwlch mewn gwasanaeth, unrhyw seibiant gyrfa neu unrhyw gyfnod o wyliau di-dâl), ac unrhyw wasanaeth pensiynadwy blaenorol neu waith yr ydych wedi ei drosglwyddo i Gynllun 2015 ac, os yw'n berthnasol, eich cyfnod o wasanaeth pensiynadwy dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006.

**Enghraifft 1**

Roedd aelod o lu heddlu yn aelod o gynllun pensiwn arall am ddwy flynedd calendr ac mae'n trosglwyddo'r buddion hynny i Gynllun 2015.

Efallai na fydd ei fuddion trosglwyddedig yn cyfateb i werth dwy flynedd o grynhoad yng Nghynllun 2015.  Ond byddai ei Gwasanaeth Cymwys hi/Wasanaeth Cymwys ef o ran y buddion trosglwyddedig yn parhau i gyfateb i ddwy flynedd.

## *4.2 Oedran ymddeol*

Dan Gynllun 2015, NPA yw'r oedran pan ddaw buddion i gael eu talu yn llawn heb unrhyw addasiad actwaraidd.

Os byddwch yn gadael y llu heddlu neu yn dewis eithrio o Gynllun 2015 ar ôl NMPA a chyn NPA gydag o leiaf ddwy flynedd o Wasanaeth Cymwys ac nad ydych yn hawlio taliad eich pensiwn, byddwch yn dod yn gymwys i gael Pensiwn Gohiriedig yn daladwy yn llawn pan fyddwch yn cyrraedd eich SPA (gweler adran 4.8 'Pensiwn gohiriedig'). Gallwch hawlio taliad o'ch Pensiwn Gohiriedig ar unwaith yn ddarostyngedig i Ostyngiad Actwaraidd o'ch SPA (gweler adrannau 4.9 'Talu pensiwn gohiriedig yn gynnar heblaw ar sail afiechyd'). Gall Pensiwn Gohiriedig gael ei dalu yn gynnar heb Ostyngiad Actwaraidd os ydych yn anaddas yn feddygol yn barhaol am waith arferol. Ond, ni allwch ymddeol gyda phensiwn dan Gynllun 2015 cyn i chi gyrraedd eich NMPA heblaw ar sail afiechyd (gweler adran 6 'Ymddeoliad afiechyd gorfodol a thalu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd').


Fel arall, os penderfynwch oedi cyn ymddeol ar ôl cyrraedd eich NPA, byddwch yn parhau i grynhoi pensiwn a bydd eich pensiwn yn cael ei gynyddu ar sail actwaraidd niwtral i ystyried ei fod wedi ei gychwyn ar ôl yr NPA.

Os nad ydych wedi cyrraedd yr NPA a'ch bod yn mynd yn anaddas yn feddygol yn barhaol i gyflawni dyletswyddau arferol aelod o lu heddlu tra'n Aelod Gweithredol o'r cynllun, efallai y bydd eich Awdurdod Pensiwn Heddlu (Prif Gwnstabl) yn ei gwneud yn ofynnol i chi ymddeol ar sail afiechyd (gweler adran 6 'Ymddeoliad afiechyd gorfodol a thalu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd').

## *4.3 Cyfrifo eich pensiwn dan Gynllun 2015*

### Sut y mae eich pensiwn yn cynyddu yng Nghynllun 2015

Bydd eich pensiwn yn cynyddu yn ystod eich gyrfa i roi incwm i chi pan fyddwch yn ymddeol.




Yn yr enghraifft hon rydym wedi tybio bod cynnydd bychan bob blwyddyn

## *4.4 Gwasanaeth pensiynadwy dan Gynllun 2015*

Mae eich gwasanaeth pensiynadwy dan Gynllun 2015 yn cynnwys:

- Eich gwasanaeth presennol fel Aelod Gweithredol tra rydych wedi talu cyfraniadau pensiwn i Gynllun 2015 neu pan dybir eich bod yn derbyn Enillion Pensiynadwy (e.e. unrhyw gyfnod di-dâl yn ystod 26 wythnos cyntaf absenoldeb mamolaeth).
- Gwasanaeth blaenorol fel Aelod Gweithredol yn yr un llu heddlu, neu mewn llu heddlu arall yng Nghymru a Lloegr, ar yr amod nad oeddech wedi cael bwlch gwasanaeth oedd yn fwy na 5 mlynedd cyn dechrau eich gwasanaeth dan Gynllun 2015 ac na ad-dalwyd cyfraniadau i chi am eich gwasanaeth blaenorol.

- Gwasanaeth blaenorol dan Gynllun Pensiwn Heddlu'r Alban 2015 neu Gynllun Pensiwn Heddlu Gogledd Iwerddon2015 ar yr amod nad oeddech wedi cael bwlch gwasanaeth oedd yn fwy na 5 mlynedd cyn dechrau eich gwasanaeth dan Gynllun 2015 ac na ad-dalwyd cyfraniadau i chi dan Gynllun Pensiwn Heddlu Gogledd Iwerddon 2015 na Chynllun Pensiwn Heddlu'r Alban 2015.
- Cyfnodau o 'wasanaeth perthnasol' dan Adran 97 o Ddeddf Heddlu 1996 (mae hyn yn cynnwys penodiadau i'r Arolygiaeth Cwnstabliaeth a rhai mathau o wasanaeth tramor) yr ydych wedi talu cyfraniadau dan Gynllun 2015 yn ystod hynny (argymhellir i aelodau sy'n ystyried gwasanaethu dramor gael cyngor ar eu sefyllfa o ran pensiwn cyn cytuno i wneud hynny).

Os oes gennych fuddion pensiwn yng nghynllun cyn-gyflogwr neu mewn cynllun pensiwn personol efallai y byddwch yn gallu eu trosglwyddo i Gynllun 2015 (gweler adran 11 'Trosglwyddo buddion i mewn ac allan o Gynllun 2015').

## *4.5 Enillion pensiynadwy*

Mae cyflog sylfaenol, pwysau Llundain, cynnydd yn eich cyflog am ddyrchafiad dros dro, cyflog dros dro a Thaliadau Trothwy Cysylltiedig â Medr (yr olaf i gael ei ddirwyn i ben erbyn Ebrill 2016) yn cyfrif tuag at Enillion Pensiynadwy. **Nid** yw lwfansau yn bensiynadwy.

Ar gyfer dibenion cyfrifo pensiwn a enillwyd, mae Enillion Pensiynadwy yn cynnwys:

- Y tâl tybiedig am unrhyw elfen â thâl o unrhyw gyfnod o absenoldeb mamolaeth (ac unrhyw absenoldeb mamolaeth heb dâl yn y 26 wythnos cyntaf), absenoldeb mabwysiadu â thâl neu absenoldeb tadolaeth arall ar yr amod nad ydych wedi dewis eithrio allan o Gynllun 2015 yn ystod y cyfnod hwn;
- Y tâl a gymerwyd i fod yn berthnasol i unrhyw gyfnodau o absenoldeb di-dâl (absenoldeb salwch, absenoldeb mamolaeth di-dâl, absenoldeb mabwysiadu di-dâl, absenoldeb cefnogi mamolaeth di-dâl, absenoldeb cefnogi

mabwysiadu di-dâl ac absenoldeb tadolaeth di-dâl) y mae cyfraniadau pensiwn wedi cael eu dwyn yn ôl (gweler adran 5.2 ‘Cyfraniadau absenoldeb di-dâl’);

- Cyflog yn ystod unrhyw gyfnod o ‘wasanaeth perthnasol’ fel y’i diffinnir dan a.97 o Ddeddf yr Heddlu 1996 y mae cyfraniadau pensiwn wedi cael eu talu amdano.

## *4.6 Buddion ar ymddeoliad*

**Byddwch yn derbyn pensiwn am oes.**

Ar gyfer pob Blwyddyn Cynllun yr ydych chi yn Aelod Gweithredol o Gynllun 2015, mae swm y pensiwn a enillwyd yr ydych yn ei grynhoi yn 1/55.3fed o’ch Enillion Pensiynadwy am y flwyddyn honno. Bydd hwn yn mynd i’ch cronfa bensiwn a enillwyd, sy’n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn wrth i ragor o bensiwn a enillwyd gael ei ychwanegu. Bydd y swm o bensiwn a enillwyd a grynhowyd yn y gronfa bensiwn yn cael ei uwchraddio yn flynyddol yn unol â CPI + 1.25% tra byddwch yn dal yn Aelod Gweithredol ac yn unol â CPI ar ôl i chi adael Cynllun 2015. Cyfrifir y pensiwn ymddeoliad a enillwyd sy’n daladwy i chi o Gynllun 2015 ar sail y swm o bensiwn a enillwyd a grynhowyd yn y gronfa bensiwn pan fyddwch yn ymddeol.

**Enghraifft 2**

Mae Aelod Gweithredol 30 oed yn gweithio llawn amser ac yn ennill £21,000 y flwyddyn. Cyfrifir ei bensiwn/ei phensiwn a enillwyd a grynhowyd dros ei B/Flwyddyn Cynllun gyntaf fel Aelod Gweithredol fel a ganlyn:

<u>Blwyddyn 1</u>

Enillion Pensiynadwy yn ystod y flwyddyn: £21,000

Cronfa Bensiwn a Enillwyd ar ddiwedd Blwyddyn 1: £379.75 (= $\frac{£21,000}{55.3}$ )

Tybiwch bod Enillion Pensiynadwy'r aelod wedi cynyddu o 1% yn y flwyddyn wedyn i £21,210 a thros y flwyddyn ddiwethaf bod chwyddiant prisiau (sy'n cael ei fesur gan CPI) wedi cynyddu 2%. Bydd cyfanswm ei b/phensiwn yn yr ail Flwyddyn Cynllun wedyn yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

Blwyddyn 2

Gan ei fod ef/ei bod hi wedi parhau yn Aelod Gweithredol, bydd ei gronfa/ei chronfa o bensiwn a enillwyd a grynhowyd o'r flwyddyn flaenorol yn cynyddu yn unol â CPI + 1.25% ar ddechrau Blwyddyn y Cynllun (gan bod twf CPI yn 2%, byddai hyn yn arwain at gynnydd o 3.25%),

Cronfa bensiwn enillwyd Blwyddyn 1 wedi cynyddu: £392.09 (= £379.75 × 1.0325)

Yna cyfrifir y pensiwn a enillwyd a grynhowyd dros y flwyddyn hon yn yr un modd â Blwyddyn 1:

Enillion Pensiynadwy yn ystod y flwyddyn: £21,210 (= £21,000 × 1.01)

Ychwanegiad at y gronfa bensiwn a enillwyd: £383.54 (= $\frac{£21{,}210}{55.3}$ )

Cyfanswm ei b/phensiwn a enillwyd a grynhowyd ar ddiwedd Blwyddyn 2 yw swm cronfa bensiwn a enillwyd Blwyddyn 1 wedi ei gynyddu a'r pensiwn a enillwyd a grynhowyd dros yr ail flwyddyn:

Cyfanswm cronfa pensiwn a enillwyd ar ddiwedd Blwyddyn 2: £775.63 (= £392.09 + £383.54)

Mae'r broses hon yn parhau ar gyfer pob Blwyddyn Cynllun y bydd yn aros yn Aelod Gweithredol (gan dybio y bydd ef/hi yn parhau yn Aelod Gweithredol am 30 mlynedd). Mae'r isod yn dangos beth sy'n digwydd i'r pensiwn a enillwyd dros y flwyddyn olaf pan fydd ef/hi yn Aelod Gweithredol.

Blwyddyn 30

Os bydd ei Enillion Pensiynadwy hi/ef yn parhau i dyfu ar 1% y flwyddyn, a bod cynnydd y CPI yn aros ar 2% y flwyddyn trwy gydol ei yrfa/ei gyrfa bydd cyfanswm ei gronfa/ei chronfa bensiwn a enillwyd ar ddiwedd blwyddyn 29 yn £20,146.80.

Cronfa bensiwn a enillwyd Blwyddyn 29 wedi ei gynyddu: £20,801.57 (= £20,146.80 × 1.0325)

Bydd ei b/phensiwn a enillwyd a grynhowyd ym Mlwyddyn 30 wedyn yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

Enillion Pensiynadwy yn ystod y flwyddyn: £28,024.58 (= £21,000 × $1.01^{29}$)
Ychwanegiad at y gronfa pensiwn a enillwyd: £506.77
(= $\frac{£28{,}024.58}{55.3}$ )
Cyfanswm cronfa pensiwn a enillwyd ar ddiwedd Blwyddyn 30: £21,308.34 (= £20,801.57 + £506.77)

Yn ystod yr Ebrill ar ôl ymddeol bydd cyfanswm y pensiwn a enillwyd a grynhowyd wrth ymddeol yn cynyddu yn unol â CPI + 1.25% i tua £22,000 y flwyddyn. Ar ôl hynny, bydd y pensiwn a enillwyd yn cynyddu yn unol â CPI trwy gydol y cyfnod talu.

Wrth ymddeol, mae gan yr aelod y dewis i gymudo pensiwn am gyfandaliad ar gyfradd o £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir. Ni all y cyfandaliad cymudo fod yn fwy na 25% o werth pensiwn yr aelod.

Er enghraifft, petai'r aelod yn cymudo 25% o'i incwm pensiwn ef neu hi, byddai yn gymwys am gyfandaliad o £63,925.02 (=25% x £21,308.34 x 12) a phensiwn adolygedig wrth ymddeol o £15,981.26 (=75% x £21,308.34).

## *4.7 Gweithio rhan-amser*

Os ydych yn gweithio rhan-amser bydd yr enillion fydd yn cyfrif tuag at eich pensiwn yn gyfatebol lai na phetaech yn gweithio llawn amser.

Os byddwch yn gweithio llawn amser neu'n rhan-amser mae eich pensiwn yn cael ei gronni yr un ffordd. Ar gyfer pob Blwyddyn Cynllun yr ydych chi yn Aelod Gweithredol rydych yn crynhoi 1/55.3fed o'ch Enillion Pensiynadwy am y flwyddyn honno. Yna bydd swm y pensiwn a enillwyd a gronnwyd yn y gronfa ar ddiwedd y Flwyddyn yn cael ei uwchraddio yn unol â CPI + 1.25% tra byddwch yn dal yn Aelod Gweithredol ac yn unol â CPI ar ôl i'ch pensiwn gychwyn cael ei dalu neu os byddwch yn Aelod Gohiriedig. Cyfrifir y pensiwn ymddeoliad sy'n daladwy i chi o Gynllun 2015 ar sail y swm o bensiwn a enillwyd a grynhowyd yn y gronfa bensiwn pan fyddwch yn ymddeol.

**Enghraifft 3**

Mae Aelod Gweithredol 30 oed yn gweithio rhan-amser gyda 40% o'r oriau ac yn cael £8,400 am y Flwyddyn Cynllun gyntaf pan fydd ef/hi yn Aelod Gweithredol (fel bod ei H/Enillion Pensiynadwy amser llawn cyfatebol yr un fath â'r Aelod Gweithredol yn Enghraifft 2). Bydd cyfrifo pensiwn yr aelod hwn yn dilyn yr un broses â'r un yn Enghraifft 2, ond gan ddefnyddio gwir Enillion Pensiynadwy'r aelod hwn.

O dybio y bydd ei H/Enillion Pensiynadwy yn parhau i dyfu o 1% y flwyddyn a bod CPI yn cynyddu o 2% y flwyddyn, bydd yr aelod hwn yn derbyn pensiwn o tua £8,800 y flwyddyn ar ôl ymddeol o wasanaeth gweithredol ar NPA (sylwer bod hyn yn 40% o bensiwn yr aelod llawn amser yn Enghraifft 2).

Wrth ymddeol, mae gan yr aelod y dewis i gymudo pensiwn am gyfandaliad ar gyfradd o £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir. Ni all y cyfandaliad cymudo fod yn fwy na 25% o werth pensiwn yr aelod.

## *4.8 Pensiwn gohiriedig*

Byddwch yn dod yn Aelod Gohiriedig os oes gennych o leiaf ddwy flynedd o Wasanaeth Cymwys ac:

- Eich bod yn gadael y llu heddlu cyn NMPA, neu
- Eich bod yn gadael y llu heddlu ar ôl cyrraedd NMPA, ond cyn cyrraedd eich SPA ac nad ydych yn cymryd eich pensiwn, neu
- Eich bod yn dewis eithrio.

Os byddwch yn ailymuno â'r llu heddlu neu yn dewis ailymuno â'r cynllun cyn pen 5 mlynedd byddwch yn dod yn Aelod Gweithredol eto. Fel arall byddwch yn parhau yn Aelod Gohiriedig.

Oni bai eich bod yn trosglwyddo eich buddion Cynllun 2015 i gynllun pensiwn arall, neu bod pensiwn gohiriedig yn dod i gael ei dalu yn gynnar, byddwch yn derbyn Pensiwn Gohiriedig pan gyrhaeddwch eich SPA.

Bydd Pensiwn Gohiriedig yn cael ei gynyddu yn unol â CPI dan Ddeddf Pensiynau (Cynyddu) 1971 o'r amser y byddwch yn gadael y llu heddlu neu yn dewis eithrio hyd y dyddiad pan fydd eich buddion yn dod yn daladwy.

**Enghraifft 4**

Mae aelod yn gadael y llu heddlu yn 50 oed gyda phensiwn a enillwyd a grynhowyd o £20,000 y flwyddyn. Pan fydd ef/hi yn gadael, bydd ei b/phensiwn a enillwyd a grynhowyd yn cynyddu yn unol â CPI dan Ddeddf Pensiynau (Cynyddu) 1971 a bydd yn daladwy ar ei SPA ef/hi).

Tybiwn, erbyn yr adeg y bydd yn cyrraedd ei SPA bod ei B/phensiwn Gohiriedig ef/hi wedi cynyddu dan Ddeddf Pensiynau (Cynyddu) 1971 o 40%. Bydd yr aelod felly yn gallu ymddeol ar ei SPA gyda phensiwn o tua £28,000 (= £20,000 x 140%).

Wrth ymddeol, mae gan yr aelod y dewis i gymudo pensiwn am gyfandaliad ar gyfradd o £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir. Ni all y cyfandaliad cymudo fod yn fwy na 25% o werth pensiwn yr aelod.

### *4.9 Talu pensiwn gohiriedig yn gynnar heblaw ar sail afiechyd*

Os ydych wedi gadael y llu heddlu gallwch ddewis cael eich Pensiwn Gohiriedig yn gynt na'ch SPA, ond bydd yn cael ei ostwng o'i dalu'n gynnar. Gelwir hyn yn 'Ostyngiad Actwaraidd' ac mae i wneud iawn am y ffaith y bydd y pensiwn yn cael ei dalu yn gynharach ac am gyfnod hwy. Gall eich gweinyddwr pensiynau roi mwy o wybodaeth i chi, ond dylech fod yn ymwybodol y gall y gostyngiad fod yn sylweddol ac y bydd yn barhaol.

Os cawsoch eich diswyddo, neu bod gofyn i chi ymddiswyddo, gallwch ddal i hawlio eich Pensiwn Gohiriedig yn gynnar ond rhaid i chi roi mis o rybudd ysgrifenedig o leiaf i'ch Awdurdod Pensiwn Heddlu o'ch bwriad i hawlio eich pensiwn.

## 5. Cyfraniadau

### *5.1 Eich cyfraniadau*

Byddwch yn talu cyfraniadau tuag at gost eich buddion pensiwn. Gosodir y rhain fel canran o'ch Enillion Pensiynadwy yn unrhyw gyfnod tâl.

Pennir swm eich Enillion Pensiynadwy ar gyfer dibenion pennu pa Haen yr ydych ynddi fel a ganlyn:

- Os ydych yn aelod o lu heddlu cartref yn gwasanaethu llawn amser, swm yr Enillion Pensiynadwy fydd y gyfradd o dâl y bydd gennych hawl iddi yn y cyfnod tâl hwnnw,
- Os ydych yn aelod o lu heddlu yng Nghymru a Lloegr heblaw heddlu cartref yn gwasanaethu llawn amser, hon fydd y gyfradd y bydd gennych hawl iddi dan delerau ac amodau eich gwaith.

Os ydych yn aelod o lu heddlu sy'n gwasanaethu rhan-amser, swm yr Enillion Pensiynadwy a fyddai'n daladwy i chi yn y cyfnod tâl hwnnw petaech yn aelod o lu heddlu yn gwasanaethu llawn amser yw'r swm.

Gweler isod y cyfraddau presennol o gyfraniadau aelodau. Os nad ydych yn gymwys am fuddion afiechyd byddwch yn talu cyfraniadau ar gyfradd is (gweler adran 3 'Aelodaeth o'r cynllun' ac adran 6 'Ymddeoliad afiechyd gorfodol a thalu pensiwn gohiriedig ar sail afiechyd).

| | **Aelodau** | **Aelodau anghymwys i fuddion ymddeol afiechyd** |
|---|---|---|
| **Haen 1** | 12.44% | 9.94% |
| **Haen 2** | 13.44% | 10.94% |
| **Haen 3** | 13.78% | 11.28% |

- **Mae Haen 1 ar gyfer swyddogion gydag Enillion Pensiynadwy llawn amser ar £27,000 a than hynny y flwyddyn;**
- **Mae Haen 2 ar gyfer swyddogion gydag Enillion Pensiynadwy llawn amser dros £27,000 ond dan £60,000 y flwyddyn;**
- **Mae Haen 3 ar gyfer swyddogion gydag Enillion Pensiynadwy llawn amser dros £60,000 y flwyddyn.**

Mae'r cyfraniadau yn cael eu tynnu o'r cyflog cyn iddo gael ei asesu am dreth incwm, felly byddwch yn derbyn rhyddhad treth incwm llawn ar y gyfradd berthnasol.

## *5.2 Cyfraniadau absenoldeb di-dâl*

Gall cyfnodau o absenoldeb di-dâl effeithio ar y modd y byddwch yn crynhoi pensiwn dan Gynllun 2015.

Bydd gennych y dewis i wneud i'r canlynol gyfrif tuag at grynhoi eich pensiwn ar yr amod nad ydych wedi dewis eithrio a'ch bod yn talu'r cyfraniadau pensiwn a fyddai'n ddyledus fel arall:

- Absenoldeb mabwysiadu di-dâl;
- Absenoldeb mamolaeth di-dâl;
- Absenoldeb rhiant di-dâl;
- Absenoldeb cefnogi mamolaeth di-dâl;
- Absenoldeb cefnogi mabwysiadu di-dâl;
- Absenoldeb salwch di-dâl am 6 mis neu lai (yn amodol ar gyfanswm oes o 12 mis).

Os dymunwch dalu cyfraniadau am gyfnod o absenoldeb di-dâl, rhaid i chi hysbysu'r Awdurdod Pensiwn Heddlu cyn pen tri mis o ddychwelyd i'r gwaith, neu erbyn y dyddiad y byddwch yn gadael y llu heddlu os bydd hynny'n gynt. Rhaid i'r cyfraniadau gael eu talu cyn pen chwe mis o'r dyddiad y bydd yr Awdurdod Pensiwn Heddlu yn rhoi gwybod i chi beth yw'r swm i'w dalu.

Ni ellir talu cyfraniadau pensiwn o ran seibiant gyrfa di-dâl. Ni fydd unrhyw gyfnodau o amser pan fyddwch wedi dewis eithrio o Gynllun 2015 yn cyfrif tuag at eich crynhoad pensiwn.

## *5.3 Ad-dalu cyfraniadau*

Os byddwch yn gadael y llu heddlu gyda llai na dwy flynedd o Wasanaeth Cymwys a heb hawl i unrhyw fudd arall dan Gynllun 2015, efallai y byddwch yn gymwys i gael eich cyfraniadau pensiwn yn ôl dan Gynllun 2015, llai treth a ddidynnwyd. Ar y llaw arall, yn yr un modd ag unrhyw un sy'n gadael, gallwch ofyn i'ch buddion dan

Gynllun 2015 gael eu trosglwyddo i gynllun pensiwn arall – gweler adran 11 ‘Trosglwyddo buddion i mewn i Gynllun 2015 ac allan ohono’. Dylech nodi mai dim ond y cyfraniadau yr ydych chi wedi eu talu fydd yn cael eu had-dalu, ond y bydd gwerth trosglwyddo yn dangos cyfanswm gwerth y buddion pensiwn sydd wedi crynhoi oherwydd y cyfraniadau a wnaethoch chi a’r rhai gan eich Awdurdod Pensiwn Heddlu.  Os byddwch yn dewis eithrio o Gynllun 2015 ar ôl 3 mis ond cyn 2 flynedd o Wasanaeth Cymwys byddwch yn cael ad-daliad o’ch cyfraniadau pensiwn wrth adael y llu heddlu.

Yr eithriad i hyn yw os byddwch yn anaddas yn feddygol yn barhaol o ganlyniad i niwed a gawsoch wrth gyflawni eich dyletswydd a bod eich Awdurdod Pensiwn Heddlu yn eich ymddeol yn orfodol ar sail afiechyd; yna bydd gennych hawl i bensiwn dan Gynllun 2015.

## 6. Ymddeoliad afiechyd gorfodol a thalu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd

Mae’r trefniadau ar gyfer ymddeoliad afiechyd dan Gynllun 2015 yn gymhleth a dim ond canllaw cyffredinol y mae’r isod yn ei gynnig.  Mae trefn benodol o weithdrefnau a chyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniad rhaid i’r Awdurdod Pensiwn Heddlu roi cwestiynau penodol i ymarferwr meddygol gyda chymhwyster addas a ddewiswyd ganddynt (yr “Ymarferwr Meddygol a Ddewiswyd” (SMP) (gweler adran 6.1 ‘Cyfeirio at Ymarferwr Meddygol a Ddewiswyd’).  Rhaid i’r SMP ystyried eich gallu i:

- Redeg, cerdded pellter rhesymol a sefyll am gyfnodau rhesymol;

- Arfer grym corfforol rhesymol wrth atal pobl a'u cadw yn y ddalfa;
- Eistedd am gyfnodau rhesymol, i ysgrifennu, darllen, defnyddio'r ffôn a defnyddio (neu ddysgu defnyddio) TG;
- Gwneud penderfyniadau a rhoi adroddiad am sefyllfaoedd i eraill;
- Gwerthuso gwybodaeth a chofnodi manylion;
- Deall, cofio ac esbonio ffeithiau a gweithdrefnau.

Wrth bennu a yw eich cyflwr yn un parhaol (sy'n debygol o barhau hyd NPA neu farwolaeth, p'run bynnag sydd gyntaf) bydd yn cael ei dybio eich bod yn derbyn triniaeth feddygol addas ar ei gyfer. Nid yw hyn yn cynnwys triniaeth y mae'r Awdurdod Pensiwn Heddlu yn ei benderfynu sy'n rhesymol i chi ei wrthod.

Bydd penderfyniad yr SMP yn seiliedig ar archwiliad meddygol (oni bai bod amgylchiadau eithriadol iawn).

Hyd yn oed os byddwch yn cael eich hasesu fel rhywun sy'n anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer cyflawni dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu, nid yw'n golygu yn awtomatig y byddwch yn cael eich ymddeol ar sail afiechyd. Bydd yr Awdurdod Pensiwn Heddlu yn ystyried eich cyflwr meddygol penodol a'r gallu cyffredinol i weld a oes dyletswyddau eraill y gallech eu cyflawni gan aros yn aelod o'r llu heddlu.

Mae dwy lefel o ymddeoliad afiechyd:

- Os ydych yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu, efallai y byddwch yn gymwys i gael pensiwn afiechyd haen isaf.
- Os ydych yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu ac yn ychwanegol yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer unrhyw waith arferol, gallwch hefyd fod yn gymwys i gael pensiwn afiechyd haen uchaf. Ar gyfer y diben hwn mae 'gwaith arferol' yn golygu gwaith gyda chyfartaledd blynyddol o 30 awr o leiaf o oriau'r wythnos.

Os, pan wnaethoch ymuno â'r llu heddlu neu ailymuno â Chynllun 2015 ar ôl dewis eithrio, y gwnaeth yr Awdurdod Pensiwn Heddlu bennu (yn dilyn archwiliad meddygol) eich bod yn anghymwys am fuddion afiechyd, ni allwch dderbyn pensiwn afiechyd os bydd gofyn i chi ymddeol ar sail afiechyd.

## *6.1 Cyfeirio at Ymarferwyr Meddygol a Ddewiswyd (SMP)*

Wrth ystyried a yw am eich ymddeol ar sail afiechyd, rhaid i'ch Awdurdod Pensiwn Heddlu ddilyn gweithdrefnau penodol a bydd yn ystyried gwybodaeth berthnasol. Fel rhan o'r broses hon, rhaid i'r Awdurdod Pensiwn Heddlu gyfeirio'r cwestiynau canlynol at yr SMP:

a) A ydych yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu;
b) A yw'r anaddasrwydd meddygol yn debygol o fod yn barhaol;
c) A ydych yn anaddas yn feddygol yn barhaol hefyd ar gyfer cymryd rhan mewn unrhyw waith arferol heblaw fel aelod o'r llu heddlu; ac
d) A yw'r anaddasrwydd meddygol yn debygol o fod yn barhaol.

Rhaid i'r Awdurdod Pensiwn Heddlu hefyd gyfeirio'r cwestiynau priodol at yr SMP wrth ystyried a yw am adolygu budd (gweler adran 6.5 'Adolygu anaddasrwydd meddygol').

Atebir y cwestiynau a roddir i'r SMP ar ffurf adroddiad i'r Awdurdod Pensiwn Heddlu, y bydd yn ei ystyried wrth wneud ei benderfyniad.  Byddwch yn cael copi o'r adroddiad.

## *6.2 Pensiwn afiechyd haen isaf*

Os bydd yr SMP yn penderfynu eich bod yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu, ond nad ydych yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer unrhyw waith arferol, ac nad oes dyletswyddau eraill addas y gallech eu hymgymryd yn y llu heddlu (o ystyried eich cyflwr meddygol a'ch gallu),

bydd yr Awdurdod Pensiwn Heddlu yn penderfynu a fydd yn eich ymddeol ar y sail honno neu beidio.

Os ydych yn Aelod Gweithredol a bod yr Awdurdod Pensiwn Heddlu yn penderfynu eich ymddeol, bydd gennych hawl i bensiwn afiechyd haen isaf sy'n daladwy ar unwaith os:

- Oes gennych o leiaf ddwy flynedd o Wasanaeth Cymwys a'ch bod yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu; neu heb ystyried a oes gennych 2 flynedd o Wasanaeth Cymwys, os ydych yn anaddas yn feddygol yn barhaol o ganlyniad i niwed a gawsoch heb eich diffyg eich hun wrth gyflawni eich dyletswydd; a
- Eich bod yn gymwys i gael buddion afiechyd.

Cyfrifir pensiwn afiechyd haen isaf yn yr un ffordd â phensiwn ymddeol sy'n daladwy ar NPA, ond heb dynnu'r gostyngiad talu'n gynnar. Ni fydd swm eich pensiwn a grynhowyd ar ddyddiad eich ymddeoliad yn cael ei gynyddu. Byddwch yn gallu cymudo rhan o'ch pensiwn afiechyd am gyfandaliad os dymunwch (gweler adran 8.4 'Dewis i gymudo rhan o'r pensiwn am gyfandaliad'). Efallai y bydd gennych hawliau eraill yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006 (gweler adran 12 'Diogeliad sy'n cyfyngu ac aelodau gyda hawliau wedi eu crynhoi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006').

**Enghraifft 5**

Mae aelod 45 oed yn ymddeol o Gynllun 2015 ar sail afiechyd haen isaf ar ôl cael ei farnu yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu. Mae ef/hi wedi crynhoi pensiwn o £15,000 y flwyddyn ar adeg ei ymddeoliad.

Bydd ei b/phensiwn a grynhowyd o £15,000 yn daladwy ar unwaith heb ei ostwng.

Wrth ymddeol, mae gan yr aelod y dewis i gymudo pensiwn am gyfandaliad ar gyfradd o £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir. Ni all y cyfandaliad cymudo fod yn fwy na 25% o werth pensiwn yr aelod.

### *6.3 Pensiwn afiechyd haen uchaf wedi ei gynyddu*

Os bydd yr SMP yn penderfynu eich bod yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu, a hefyd yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer unrhyw waith arferol, bydd yr Awdurdod Pensiwn Heddlu yn penderfynu a fydd yn eich ymddeol ar sail anaddasrwydd meddygol parhaol.

Os ydych yn Aelod Gweithredol a bod yr Awdurdod Pensiwn Heddlu yn penderfynu eich ymddeol, bydd gennych hawl i bensiwn afiechyd haen uchaf wedi ei gynyddu a phensiwn afiechyd haen isaf sy'n daladwy ar unwaith os:

- Oes gennych o leiaf ddwy flynedd o Wasanaeth Cymwys a'ch bod yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer gwaith arferol; neu os oes gennych 2 flynedd o Wasanaeth Cymwys neu beidio, os ydych yn anaddas yn feddygol yn barhaol o ganlyniad i niwed a gafwyd heb eich diffyg eich hun wrth gyflawni eich dyletswydd; ac
- Eich bod yn gymwys i gael buddion afiechyd.

I wneud iawn am golli'r cyfle i weithio hyd eich NPA, mae pensiwn afiechyd haen uchaf wedi ei gynyddu yn daladwy, a gyfrifir fel a ganlyn:

- Os yw eich cyfnod cronnol o wasanaeth (Os oes gennych wasanaeth yng Nghynllun 2006 yna mae'n gyfuniad o wasanaeth Cynllun 2006 a gwasanaeth yng Nghynllun 2015 fel arall mae'n gyfnod o wasanaeth dan Gynllun 2015 yn unig) yn **llai na 5 mlynedd,** bydd eich cyfradd flynyddol o bensiwn afiechyd haen uwch wedi ei gynyddu y lleiaf o:

    (a) Cyfanswm y pensiwn a enillwyd a grynhowyd x 3; neu

$$\text{(b) Cyflog terfynol NPA} \quad \frac{}{55.3} \times \frac{\text{Cyfnod tybiedig o wasanaeth pensiynadwy hyd NPA}}{2}$$

Sylwer bod y cyfnod o wasanaeth pensiynadwy tybiedig hyd NPA yn cael ei alw yn ‘wasanaeth disgwyliedig’.

**Enghraifft 6**

Mae Aelod Gweithredol 25 oed gyda 3 blynedd o wasanaeth yn ymddeol ar sail afiechyd haen uchaf wedi ei gynyddu ar ôl cael ei farnu yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer unrhyw waith arferol. Mae ef/hi yn ennill £23,000 y flwyddyn ac mae ganddo/ganddi bensiwn wedi ei grynhoi o £1,200 y flwyddyn. Mae ei wasanaeth disgwyliedig ef/hi yn cael ei gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng ei NPA ef/hi a’i h/oedran wrth ymddeol (25).

Bydd ei b/phensiwn haen uchaf wedi ei gynyddu y lleiaf o £1,200 x 3 = £3,600 (yn ôl cyfrifiad (a) uchod) a $\frac{£23{,}000}{55.3} \times \frac{60 - 25}{2}$ = £7,278 (yn ôl cyfrifiad (b) uchod).

Mae cyfanswm y pensiwn taladwy iddo/iddi felly yn cyfateb i £4,800 y flwyddyn (= £1,200 + £3,600)

Wrth ymddeol, mae gan yr aelod y dewis i gymudo pensiwn am gyfandaliad ar gyfradd o £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir. Ni all y cyfandaliad cymudo fod yn fwy na 25% o werth pensiwn yr aelod.

- Os yw eich cyfnod cronnol o wasanaeth (Os oes gennych wasanaeth yng Nghynllun 2006 yna mae’n gyfuniad o wasanaeth Cynllun 2006 a gwasanaeth yng Nghynllun 2015 fel arall mae’n gyfnod o wasanaeth dan Gynllun 2015 yn unig) yn **fwy na 5 mlynedd,** bydd eich cyfradd flynyddol o bensiwn afiechyd haen uwch wedi ei gynyddu yn:

$$\frac{\text{Cyflog terfynol}}{55.3} \times \frac{\text{Cyfnod tybiedig o wasanaeth pensiynadwy hyd NPA}}{2}$$

**Enghraifft 7**

Mae Aelod Gweithredol 35 oed gyda 7 blynedd o wasanaeth yn ymddeol ar sail afiechyd haen uchaf wedi ei gynyddu ar ôl cael ei farnu yn anaddas yn feddygol yn barhaol ar gyfer unrhyw waith arferol. Mae ef/hi yn ennill £35,000 y flwyddyn ac mae ganddo/ganddi bensiwn wedi ei grynhoi o £5,000 y flwyddyn. Mae ei wasanaeth disgwyliedig ef/hi yn cael ei gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng ei NPA ef/hi a'i h/oedran wrth ymddeol (35).

Bydd ei bensiwn haen uwch wedi ei gynyddu yn $\frac{£35{,}000}{55.3} \times \frac{60 - 35}{2}$ = £7,911 y flwyddyn

Mae cyfanswm y pensiwn taladwy iddo/iddi felly yn cyfateb i £12,911 y flwyddyn (= £5,000 + £7,911)

Wrth ymddeol, mae gan yr aelod y dewis i gymudo pensiwn am gyfandaliad ar gyfradd o £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir. Ni all y cyfandaliad cymudo fod yn fwy na 25% o werth pensiwn yr aelod.

Os ydych yn gwasanaethu neu wedi gwasanaethu rhan-amser tra roeddech yn Aelod Gweithredol, ni fydd unrhyw gynnydd ar sail amser llawn ond bydd yn cael ei ostwng yn gyfatebol i adlewyrchu bod rhywfaint neu'r cyfan o'ch gwasanaeth tra roeddech yn Aelod Gweithredol yn rhan-amser.

**Enghraifft 8**

Roedd Aelod Gweithredol 30 mlwydd oed wedi gweithio yn rhan-amser (ar 40% o'r oriau) am 3 blynedd ac yna wedi gweithio llawn amser am 3 blynedd arall. Mae'r aelod yn ymddeol ar sail afiechyd haen uchaf wedi ei gynyddu ar ôl cael ei farnu yn anabl ar gyfer unrhyw waith arferol. Mae ef/hi yn ennill £30,000 y flwyddyn ac mae ganddo/ganddi bensiwn wedi ei grynhoi o £2,400 y flwyddyn.

Mae ei g/wasanaeth ef/hi sy'n ffurfio ei bensiwn yn 4.2 blynedd (3*40% + 3).

Mae ei g/chyfnod gwasanaeth wedi ei grynhoi yn 6 mlynedd (mae gwasanaeth rhan-amser yn cyfrif fel gwasanaeth llawn amser i'r diben hwn).

Mae ei wasanaeth disgwyliedig ef/hi yn cael ei gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng ei NPA ef/hi a'i h/oedran wrth ymddeol (30), gyda gostyngiad cyfatebol yn unol â chyfanswm ei wasanaeth ef/ei gwasanaeth hi sydd wedi bod yn rhan-amser dros ei g/yrfa (4.2 blynedd allan o 6 mlynedd posibl o wasanaeth).

Bydd ei b/phensiwn haen uwch wedi ei gynyddu yn $\frac{£30{,}000}{55.3} \times \frac{60-30}{2} \times \frac{4.2}{6}$ = £5,696 y flwyddyn

Mae cyfanswm ei b/phensiwn taladwy wrth ymddeol yn cyfateb i £8,096 y flwyddyn (= £2,400 + £5,696)

Wrth ymddeol, mae gan yr aelod y dewis i gymudo pensiwn am gyfandaliad ar gyfradd o £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir. Ni all y cyfandaliad cymudo fod yn fwy na 25% o werth pensiwn yr aelod.

## *6.4 Gostyngiad yn y pensiwn afiechyd oherwydd eich diffyg chi*

Gall y cyfan o'ch pensiwn afiechyd gael ei ostwng hyd at ei hanner os byddwch chi wedi cyfrannu yn sylweddol at eich anaddasrwydd meddygol trwy eich diffyg eich hun.

## *6.5 Adolygu anaddasrwydd meddygol*

Gall Awdurdod Pensiwn Heddlu yn ôl ei ddisgresiwn adolygu eich anaddasrwydd meddygol yn dilyn ymddeoliad salwch, yn unol â gweithdrefnau penodedig. Bydd yn cael ei dybio eich bod chi wedi bod yn cael triniaeth feddygol addas ar gyfer eich cyflwr (oni bai bod yr Awdurdod Pensiwn Heddlu yn ystyried ei bod yn rhesymol i chi beidio â bod wedi gwneud hynny).

Os ydych yn derbyn taliad pensiwn afiechyd haen isaf yn unig ac nad ydych wedi cyrraedd y NPA yna gall yr Awdurdod Pensiwn Heddlu adolygu o dro i dro a yw eich anaddasrwydd meddygol wedi dod i ben neu waethygu yn arwyddocaol. Gall yr adolygiad gael ei gynnal ar unrhyw adeg y mae'r Awdurdod Pensiwn Heddlu yn ei ddewis.

Os bydd yr SMP yn pennu, yn dilyn adolygiad o'r fath, eich bod wedi peidio â bod yn feddygol anaddas ar gyfer cyflawni dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu yna bydd eich pensiwn afiechyd yn dod i ben. **Gall** eich Awdurdod Pensiwn Heddlu roi rhybudd i chi ailymuno â'r llu heddlu ar reng na fydd yn is na'r un yr oeddech arni cyn i'ch pensiwn afiechyd ddod yn daladwy. Bydd eich pensiwn afiechyd haen isaf wedyn yn peidio â bod yn daladwy naill ai ar ddiwrnod olaf y cyfnod o 3 mis yn dilyn rhybudd i ailymuno â'r llu heddlu neu'r diwrnod y byddwch yn ailymuno â'r llu heddlu, p'run bynnag sydd gyntaf.

Os ydych yn derbyn taliad pensiwn afiechyd haen isaf a bod eich cyflwr yn gwaethygu cyn pen 5 mlynedd ar ôl y dyddiad y cawsoch eich ymddeol ar sail feddygol, efallai y byddwch yn cael eich ail asesu (ar ôl adolygiad cyfnodol neu o roi hysbysiad i'ch Awdurdod Pensiwn Heddlu bod eich cyflwr wedi gwaethygu) a dod yn gymwys i gael pensiwn afiechyd haen uchaf wedi ei gynyddu os bydd yr SMP yn barnu eich bod yn anaddas yn feddygol yn barhaol i ymgymryd ag **unrhyw waith arferol.** Os oedd gennych gyflwr meddygol cynyddol ni fydd y cyfyngiad 5 mlynedd yn berthnasol. (Rhoddir manylion y cyflyrau hyn yn Rheoliadau 2015).

Os ydych yn derbyn taliad pensiwn afiechyd haen isaf yn unig a phensiwn haen uchaf a gynyddwyd ac nad ydych wedi cyrraedd y NPA yna gall yr Awdurdod Pensiwn Heddlu adolygu o dro i dro a yw eich anaddasrwydd meddygol wedi dod i ben neu waethygu yn arwyddocaol. Gall yr adolygiadau hyn gael eu cynnal ar gyfnodau o ddim mwy na 5 mlynedd fel sy'n cael ei bennu gan yr Awdurdod Pensiwn Heddlu.

Os bydd yr SMP yn pennu, yn dilyn adolygiad o'r fath, eich bod wedi peidio â bod yn feddygol anaddas ar gyfer **gwaith arferol** yna bydd eich hawl i bensiwn afiechyd haen uwch a gynyddwyd yn dod i ben. Ond, byddwch yn parhau yn gymwys i dderbyn taliad pensiwn afiechyd haen is, oni bai bod yr SMP yn pennu, yn dilyn adolygiad, eich bod hefyd wedi peidio â bod yn feddygol anaddas ar gyfer cyflawni **dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu a bod eich Awdurdod Pensiwn Heddlu yn rhoi rhybudd i chi ailymuno â'r llu heddlu.**

Pan fydd SMP yn penderfynu y byddai eich anaddasrwydd meddygol ar gyfer cyflawni dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu wedi dod i ben petaech wedi derbyn triniaeth feddygol arferol addas, ac os yw eich methiant i gael triniaeth o'r fath yn fwriadol neu oherwydd eich esgeulustod chi, byddwch yn cael eich rhybuddio y bydd methiant bwriadol neu esgeulus i gael triniaeth yn gallu arwain at ddirwyn eich pensiwn afiechyd i ben.

Os ydych yn derbyn taliad Pensiwn Gohiriedig ar sail afiechyd ac nad ydych wedi cyrraedd eich SPA yna gall yr Awdurdod Pensiwn Heddlu adolygu o dro i dro a yw eich anaddasrwydd meddygol wedi dod i ben. Gall yr adolygiadau hyn gael eu cynnal ar gyfnodau o ddim mwy na 5 mlynedd fel sy'n cael ei bennu gan yr Awdurdod Pensiwn Heddlu. Os bydd yr SMP yn pennu, yn dilyn adolygiad o'r fath, eich bod wedi peidio â bod yn feddygol anaddas ar gyfer **gwaith arferol** yna bydd eich hawl i Bensiwn Gohiriedig yn dod i ben.

### *6.6 Ad-dalu cyfraniadau*

Bydd ad-daliad o gyfraniadau yn daladwy os oes gennych lai na dwy flynedd o Wasanaeth Cymwys a'ch bod yn ymddeol ar sail anaddasrwydd meddygol parhaol. Ni fydd swm yr ad-daliad yn llai na chyfanswm eich cyfraniadau pensiwn. Mae'r ad-daliad yn drethadwy.

### *6.7 Talu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd*

Os ydych yn Aelod Gohiriedig o'r Cynllun hwn a'ch bod yn mynd yn anaddas yn feddygol yn barhaol am unrhyw waith arferol, bydd unrhyw Bensiwn Gohiriedig y mae gennych hawl iddo yn cael ei dalu i chi o'r dyddiad cynharaf o'r canlynol: y dyddiad pan wnaethoch ofyn i'ch Awdurdod Pensiwn Heddlu gyfeirio'r cwestiynau at yr SMP neu'r dyddiad pan wnaeth eich Awdurdod Pensiwn Heddlu gyfeirio'r cwestiynau o'u dewis eu hunain. Bydd hyn heb Ostyngiad Actwaraidd.

Disgrifir effeithiau dewis eithrio yn fwy manwl yn adran 3.3.

### *6.8 Budd niwed*

Os byddwch, o ganlyniad i gael niwed ar ddyletswydd, yn anaddas yn feddygol yn barhaol i gyflawni dyletswyddau arferol aelod o'r llu heddlu, a'ch bod wedi gadael y gwasanaeth, bydd gennych hawl i fudd niwed dan Reoliadau'r Heddlu (Budd Niwed). Mae'r budd hwn ar wahân i'r rhai a delir dan Gynllun 2015.

# 7. Apêl a chwynion

## *7.1 Cyffredinol*

Mae ystod o weithdrefnau apelio yng Nghynllun 2015 ac mae rhai o'r rhain yn gymhleth. Os oes gennych apêl neu gŵyn yn erbyn penderfyniad a wnaed gan eich gweinyddwr pensiynau, dylech fynd at y gweinyddwr i ddechrau, a dylai fedru esbonio'r gweithdrefnau amrywiol a'r camau sydd ar gael i chi.

Os yw eich apêl neu gŵyn yn erbyn yr Awdurdod Pensiwn Heddlu yna, yn yr un modd, dylech geisio datrys y broblem gyda'r Awdurdod Pensiwn Heddlu i ddechrau. Os byddwch yn methu cael datrysiad boddhaol, yna efallai y byddwch am ystyried rhai llwybrau eraill sy'n cael eu hesbonio isod. **Ond, sylwer, mae cyfyngiadau amser amrywiol yn berthnasol ar gyfer gwneud yr apeliadau neu gwynion yma sy'n rhedeg o'r dyddiad penderfynu sy'n destun yr apêl ac nid ydynt yn cael eu hymestyn i ystyried ceisiadau i ddatrys y mater gyda'r Awdurdod Pensiwn Heddlu.**

Os ydych yn aelod sy'n gwasanaethu llu heddlu, gallwch gysylltu â'ch cymdeithas staff am gyngor. Os ydych wedi ymddeol ac nad ydych yn siŵr ble i droi am gyngor ar anghydfod, efallai y byddwch am gysylltu â'r National Association of Retired Police Officers (NARPO), NARPO House, 38 Bond Street, Wakefield, West Yorkshire, WF1 2QP. Efallai bod gan NARPO hefyd gangen leol yn eich ardal chi.

Nodir gweithdrefnau penodol yn Rheoliadau Cynllun 2015 ar gyfer apeliadau yn erbyn penderfyniadau meddygol (gweler adran 7.2). Mae apeliadau eraill yn debygol o gynnwys apêl i Lys y Goron (Gweler adran 7.3) neu at yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweler adran 7.4).

## *7.2 Apeliadau Meddygol*

Os dymunwch apelio yn erbyn penderfyniad SMP gallwch apelio at Fwrdd Apêl Meddygol yr Heddlu. Fel arfer rhaid i chi roi rhybudd o'ch apêl i'ch Awdurdod Pensiwn Heddlu cyn pen 28 diwrnod o dderbyn yr adroddiad gan yr SMP.
Cyn i'r apêl gael ei hanfon at Fwrdd Apêl Meddygol yr Heddlu, mae'n bosibl i chi a'r Awdurdod Pensiwn Heddlu gytuno y dylai'r mater gael ei gyfeirio yn ôl at yr SMP dan y weithdrefn adolygu fewnol.

Mae penderfyniad Bwrdd Apêl Meddygol yr Heddlu yn derfynol ond yn ddarostyngedig i adolygiad gan y llysoedd neu i'w hail ystyried gan Fwrdd Apêl Meddygol yr Heddlu, gyda'ch cytundeb chi a'r Awdurdod Pensiwn Heddlu.

## *7.3 Apeliadau i Lys y Goron*

Os byddwch chi yn aelod o lu heddlu cartref, gallwch apelio i Lys y Goron os na fyddwch yn fodlon ar benderfyniad yn ymwneud â:

- hawliad am dalu buddion a dderbyniwyd dan Gynllun 2015;
- hawl i dderbyn taliadau buddion pan nad oedd angen gwneud hawliad;
- hawliad am dalu swm mwy o fudd dan Gynllun 2015 na'r swm a ganiatawyd;
- penderfyniad a yw gwrthod derbyn triniaeth feddygol yn rhesymol;
- gostyngiad yn swm y pensiwn yr ydych yn ei dderbyn oherwydd diffyg;
- fforffedu.

## *7.4 Apeliadau at yr Ysgrifennydd Gwladol*

Os byddwch chi yn aelod o lu heddlu yng Nghymru a Lloegr heblaw'r llu heddlu cartref, gallwch apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol os na fyddwch yn fodlon ar benderfyniad yn ymwneud â:

- hawliad am dalu buddion a dderbyniwyd dan Gynllun 2015;
- hawl i dderbyn taliadau buddion pan nad oedd angen gwneud hawliad;
- hawliad am dalu swm mwy o fudd dan Gynllun 2015 na'r swm a ganiatawyd;
- penderfyniad a yw gwrthod derbyn triniaeth feddygol yn rhesymol;
- gostyngiad yn swm y pensiwn yr ydych yn ei dderbyn oherwydd diffyg;

- fforffedu.

Gallwch roi rhybudd o apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol, gan roi sail eich apêl. Yna bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penodi tribiwnlys apêl i glywed yr apêl.

## *7.5 Gweithdrefnau datrys anghydfod mewnol*

Os oes gennych gŵyn am Gynllun 2015, neu ei weinyddu, nad ydych yn mynd ar ei ôl trwy gyfrwng apêl dan y gweithdrefnau apêl meddygol, nag i Lys y Goron nag i dribiwnlys, dylech gysylltu â'ch gweinyddwr pensiynau i gychwyn. Dylai'r ddolen isod roi manylion cyswllt i chi ar gyfer eich gweinyddwr pensiynau: https://www.gov.uk/government/publications/police-pension-administrator-contacts-england-and-wales

Bydd gennych hawl i dderbyn esboniad ysgrifenedig yn ymwneud â'ch cwyn. Os byddwch yn dal i deimlo bod gennych gŵyn ddilys, gallwch chi (neu rywun sy'n cynrychioli eich buddiannau, fel eich cymdeithas staff) apelio at yr Awdurdod Pensiwn Heddlu neu at y Swyddfa Gartref os yw'r mater yn ymwneud â chyfrifoldeb uniongyrchol yr Ysgrifennydd Gwladol dan Reoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015.

Mae terfynau amser ar gyfer gwneud ceisiadau. Mae rhagor o fanylion, ynghyd â ffurflenni i chi eu defnyddio, ar gael gan eich gweinyddwr pensiynau.

## *7.6 Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau (TPAS)*

Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau (TPAS) ar gael i gynorthwyo aelodau a buddiolwyr cynlluniau pensiwn yng nghyswllt unrhyw anawsterau y gallant eu cael yng nghyswllt eu cynllun ac y maent wedi methu eu datrys gyda'r Awdurdod Pensiwn Heddlu neu weinyddwyr y pensiynau hynny. Mae TPAS yn:

The Pensions Advisory Service
11 Belgrave Road
Llundain
SW1V 1RB

Ffôn: 0300 123 1047

Gwefan: www.pensionsadvisoryservice.org.uk

## *7.7 Yr Ombwdsmon Pensiynau*

Os na fydd TPAS yn gallu datrys eich problem, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Pensiynau (sydd yn yr un cyfeiriad â TPAS, ffôn 020 7630 2200 a gwefan www.pensions-ombudsman.org.uk/).

Mae gan yr Ombwdsmon Pensiynau'r grym i ymchwilio i gwynion neu anghydfodau am ffeithiau neu'r gyfraith yn ymwneud â chynlluniau pensiwn galwedigaethol, a'u pennu, gan gynnwys

- unrhyw gŵyn sy'n honni anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu; ac
- unrhyw gwestiwn am ffeithiau neu'r gyfraith

Ond, ni all yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn pan fydd apêl dan y gweithdrefnau apêl feddygol wedi cael ei chychwyn.

## *7.8 Y Rheoleiddiwr Pensiynau*

Y Rheoleiddiwr Pensiynau sy'n rheoleiddio cynlluniau galwedigaethol fel Cynllun 2015. Mae prif amcanion y Rheoleiddiwr yn cynnwys diogelu buddion aelodau cynlluniau pensiwn yn y gwaith a hybu gweinyddu da ar gynlluniau pensiwn. Mae'r Rheoleiddiwr yn gallu ymyrryd yn y modd y mae cynlluniau'n cael eu rhedeg pan fydd deddfwriaeth wedi ei thorri.  Gellir cysylltu â'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn:

Napier House,<br>
Trafalgar Place<br>
Brighton, East Sussex BN1 4DW<br>
Ffôn: 0845 600 7060<br>
www.thepensionsregulator.gov.uk

# 8. Hyblygrwydd y cynllun

## *8.1 Dewis i brynu'r gostyngiad taliad cynnar*

Os byddwch wedi cyrraedd NMPA a bod gennych hawl i hawlio eich pensiwn yn gynnar a'ch bod naill ai yn Aelod Gweithredol nad yw wedi cyrraedd NPA neu yn Aelod Gohiriedig nad yw wedi cyrraedd eich SPA, gallwch ddewis prynu o'r Gostyngiad Actwaraidd a fyddai wedi bod yn berthnasol fel arall wrth gyfrifo eich pensiwn blynyddol.

Os byddwch chi yn dewiswch gwneud hyn, gall y taliad i brynu'r Gostyngiad Actwaraidd gael ei wneud gennych chi, eich cyflogwr neu ei rannu rhyngoch chi a'ch cyflogwr.

Gall eich cyflogwr wneud taliad arbennig gan ddefnyddio cyfandaliad sy'n daladwy i chi dan y Cynllun Iawndal.  Ond, os bydd eich cyflogwr yn gwneud taliad arbennig, bydd y cyfandaliad y byddech wedi ei dderbyn dan y Cynllun Iawndal yn cael ei ostwng gan y swm o daliad arbennig a roddwyd gan eich cyflogwr.  Ond sylwer, os bydd y taliad arbennig yn fwy na'r cyfandaliad cyfan y byddech yn ei dderbyn dan y Cynllun Iawndal, ni fyddwch yn gorfod talu'r gwahaniaeth.

Bydd cost prynu'r gostyngiad taliad cynnar allan yn cael ei bennu gan yr Awdurdod Pensiwn Heddlu yn unol â chyfarwyddyd actwaraidd.

## *8.2 Dewis i ychwanegu at bensiwn*

Gallwch ddewis gwneud taliadau pensiwn ychwanegol er mwyn cynyddu:

- Eich buddion ymddeoliad am gyfnod o wasanaeth; neu
- Eich buddion ymddeoliad a buddion marwolaeth am gyfnod o wasanaeth.

Pe byddech yn dewis arfer yr opsiwn hwn byddwch yn gallu penderfynu a yw'r taliadau pensiwn ychwanegol i gael eu gwneud trwy:

- Daliadau cyfnodol; neu
- Daliad cyfandaliad

Dim ond os byddwch wedi bod yn Aelod Gweithredol o Gynllun 2015 am gyfnod parhaus o 12 mis o leiaf a'ch bod wedi cael datganiad o swm y pensiwn ychwanegol y byddwch yn gallu defnyddio'r dewis cyfandaliad.

Sylwer, os gwelwch yn dda y gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfan neu ran o gyfandaliad a fyddai wedi bod yn daladwy i chi dan y Cynllun Iawndal fel cyfandaliad i brynu pensiwn ychwanegol ond bydd angen i chi nodi'r dewis hwn wrth eich Awdurdod Pensiwn Heddlu.

Byddwch yn medru arfer y dewis pensiwn ychwanegol fwy nag unwaith ond dim ond unwaith yn unrhyw Flwyddyn Cynllun y gallwch wneud taliad cyfandaliad i gael pensiwn ychwanegol.

Mae'r uchafswm o bensiwn ychwanegol y gellir ei brynu ar gyfer unrhyw Flwyddyn Cynllun yn cael ei adolygu yn flynyddol gan Drysorlys EM. Mae'r uchafswm o bensiwn ychwanegol y gellir ei brynu ar gyfer y Flwyddyn Cynllun 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2016 yn £6,500. Ar gyfer Blynyddoedd Cynllun sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2016 neu ar ôl hynny, mae'r cyfyngiad yn cael ei bennu gan Drysorlys EM ond gall gynyddu mewn gwirionedd yn unol â'r CPI.

Petaech yn penderfynu talu taliadau cyfnodol i gael pensiwn ychwanegol, gall yr Awdurdod Pensiwn Heddlu ganslo'r dewis pensiwn ychwanegol os yw'n ymddangos yr eir dros y cyfyngiadau pensiwn ychwanegol os byddwch yn parhau i wneud y taliadau cyfnodol hynny.

## *8.3 Dewis i ohirio talu pensiwn ymddeoliad ychwanegol*

Os bydd gennych hawl i daliad pensiwn ymddeoliad ychwanegol fe allwch ddewis gohirio'r taliad.  Os byddwch yn penderfynu gwneud hynny byddwch yn dod yn Aelod Gohiriedig o ran y pensiwn ymddeoliad ychwanegol.

Yna bydd gennych hawl i gael taliad o'r pensiwn ymddeoliad ychwanegol o'r dyddiad y byddwch yn ei nodi pan fyddwch yn hawlio taliad o'r pensiwn hwnnw.  Gallwch hawlio taliad o'r pensiwn hwnnw trwy roi mis o leiaf o rybudd i'ch Awdurdod Pensiwn Heddlu.

Bydd cyfradd flynyddol eich pensiwn ymddeoliad ychwanegol yn cael ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Pensiynau'r Heddlu 2015.

### *8.4 Y dewis i gymudo rhan o'r pensiwn am gyfandaliad*

Os byddwch yn dod yn deilwng i gael taliad o bensiwn ymddeoliad, pensiwn gohiriedig neu bensiwn afiechyd dan Gynllun 2015 gallwch ddewis ildio rhan o'ch pensiwn am gyfandaliad. Gelwir hyn yn gymudo.  Os byddwch yn penderfynu arfer y dewis hwn, am bob £1 y bydd swm eich cyfradd flynyddol o bensiwn ymddeol neu bensiwn salwch yn cael ei ostwng, byddwch yn cael cyfandaliad o £12.  Ni all eich cyfandaliad cymudo fod yn fwy na 25% o werth eich pensiwn.

**Enghraifft 9**

Mae aelod ar fin ymddeol gyda phensiwn o £20,000. Mae ef/hi am gymudo 20% o'i b/phensiwn blynyddol yn gyfandaliad. Byddai ef/hi yn gymwys i gael cyfandaliad o £48,000 (=20% x £20,000 x 12) a phensiwn adolygedig wrth ymddeol o £16,000 (=80% x £20,000).

Os dymunwch arfer y dewis hwn i gymudo cyfran o'ch pensiwn am gyfandaliad bydd raid i chi roi rhybudd ysgrifenedig i'ch Awdurdod Pensiwn Heddlu.  Sylwer os gwelwch yn dda y bydd yn rhaid gwneud y penderfyniad i gymudo eich pensiwn yn gyfandaliad **cyn dyddiad eich ymddeoliad.**

## 9. Ysgariad a diddymu partneriaethau sifil

Os byddwch chi yn cael ysgariad neu os yw eich partneriaeth sifil yn cael ei diddymu, mae dau bwynt pwysig y dylech eu cofio:

- Ni fydd gan eich cyn-briod neu gyn-bartner sifil hawl i unrhyw bensiwn goroeswr, petaech yn marw o'i flaen ef neu o'i blaen hi, ond
- Bydd pensiynau plant yn parhau yn daladwy i unrhyw blant cymwys (Gweler adran 10.3 'Plant sy'n goroesi') petaech yn marw.

Gall cost cydymffurfio ag unrhyw orchymyn Llys sy'n gosod rhwymedigaethau ar Gynllun 2015 gael eu hadfer yn uniongyrchol oddi arnoch.

Dylech nodi hefyd, petai hawliad ariannol mewn camau i gael ysgariad, gwahaniad barnwrol, diddymu priodas, diddymu partneriaeth sifil, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Pensiwn Heddlu, os gofynnir iddo, roi datganiad o werth trosglwyddo cyfatebol mewn arian parod eich buddion dan Gynllun 2015 (a dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 os oes gennych fuddion wedi cronni dan y trefniadau hynny) er mwyn galluogi'r Llys i ystyried yr hawliau pensiwn wrth setlo hawliadau ariannol.

Gall y Llys wrthbwyso gwerth eich buddion mewn cymhariaeth ag asedau eraill, neu, mewn camau ysgaru neu ddiddymu, gall roi gorchymyn rhannu pensiwn. Mewn hawliadau ariannol yn deillio o gamau i ddiddymu, gwahanu barnwrol neu ysgaru, gall y Llys wneud gorchymyn clustnodi yn erbyn eich pensiwn.

Os bydd y Llys yn cyhoeddi gorchymyn clustnodi, efallai y bydd yn gofyn, pan fydd eich buddion yn dod yn daladwy bod eich cyn-briod neu gyn-bartner yn derbyn un o'r buddion canlynol neu gyfuniad ohonynt:

- Y cyfan neu ran o'ch pensiwn.
- Y cyfan neu ran o'ch cyfandaliad a gymudwyd.
- Y cyfan neu ran o unrhyw grant marwolaeth a delir os byddwch farw tra'n dal i wasanaethu.

Bydd gorchymyn clustnodi yn erbyn taliadau pensiwn (ond dim cyfandaliadau oni bai bod y gorchymyn yn nodi hynny) yn dod i ben yn awtomatig os bydd eich cyn-briod yn ailbriodi neu os bydd eich cyn-bartner yn ffurfio partneriaeth sifil arall, a bydd eich pensiwn llawn yn cael ei adfer i chi.  Bydd taliadau pensiwn i'ch cyn-briod neu gyn-bartner sifil yn dod i ben pan fyddwch farw.

Os bydd y Llys yn cyhoeddi gorchymyn rhannu pensiwn, bydd canran o'ch hawliau a grynhowyd yn cael eu dyrannu i'ch cyn-briod neu gyn-bartner sifil ar sail y crynhoad hyd at naill ai 28 diwrnod ar ôl dyddiad effeithiol y gorchymyn, neu ddyddiad eich archddyfarniad absoliwt os bydd yn hwyrach.

Bydd eich pensiwn, eich cyfandaliad a'ch buddion i oroeswyr yn cael eu gostwng. Bydd eich cyn-bartner neu gyn-bartner sifil yn dal buddion credyd pensiwn yn y cynllun yn ei hawl ei hun a fydd yn dod yn daladwy pan fydd ef/hi yn cyrraedd SPA. Mae'r gostyngiad i'ch pensiwn yn cael ei alw yn ddebyd pensiwn.

# 10. Buddion i oroeswyr os byddwch yn marw

## *10.1 Buddion goroeswyr*

Pan fyddwch farw, gall eich ‘goroeswyr’ (sy’n cynnwys eich priod, partner sifil, partner a ddatganwyd (gweler adran 10.2.2 ‘Partneriaid a ddatganwyd’) nad yw yn bartner sifil a phlant cymwys) fod â hawl i dderbyn buddion. Bydd y buddion a all fod yn daladwy yn dibynnu:

- a fyddwch yn marw yn Aelod Gweithredol, yn Aelod Gohiriedig neu yn Aelod sy’n Bensiynwr,
- a fyddwch yn marw ar ôl gadael y llu heddlu neu ar ôl i chi ddewis eithrio; a
- hyd y Gwasanaeth Cymwys ar ddyddiad eich marwolaeth.

Os ydych wedi dewis eithrio neu eich bod wedi gadael y llu heddlu ar ddyddiad eich marwolaeth, byddai unrhyw fuddion goroeswyr yn seiliedig ar unrhyw Bensiwn Gohiriedig yr oedd gennych hawl iddo ar y pryd (gweler adran 4.8 ‘Pensiwn gohiriedig’). Rhoddir mwy o fanylion am fuddion goroeswyr yn yr adrannau canlynol.

## *10.2 Buddion oedolyn sy’n goroesi*

Gall oedolion sy’n goroesi gynnwys eich priod, partner sifil a phartneriaid a ddatganwyd nad ydynt yn bartneriaid sifil (gweler adran 10.2.2 ‘Partneriaid a ddatganwyd’).

Dan Gynllun 2015 mae’r holl bensiynau i oedolion sy’n goroesi yn daladwy am oes, boed y goroeswr yn ailbriodi neu’n ffurfio partneriaeth newydd neu beidio. Os yw’r

oedolyn sy'n goroesi yn aelod hefyd o Gynllun 2015 mae ganddo ef/ganddi hi yn dal hawl i fudd oedolyn sy'n goroesi.

### 10.2.1 Eich priod neu bartner sifil.

Mae gan eich priod neu bartner sifil hawl i bensiwn o Gynllun 2015 os byddwch farw:

- tra byddwch yn derbyn pensiwn neu;
- â hawl i dderbyn Pensiwn Gohiriedig pan fyddwch yn cyrraedd eich SPA.

Yn gyffredinol mae'r pensiwn taladwy yn 50% o'ch hawl pensiwn ar ddyddiad eich marwolaeth.

Os byddwch farw tra byddwch yn Aelod Gweithredol, a bod gennych o leiaf ddwy flynedd o Wasanaeth Cymwys, mae gan eich priod neu bartner sifil hawl i bensiwn pan fyddwch farw.  Mae'r pensiwn taladwy yn 50% o'r pensiwn afiechyd y byddech wedi ei dderbyn petaech yn anaddas yn feddygol yn barhaol i waith arferol ar adeg eich marwolaeth.

**Enghraifft 10**

Mae aelod llawn amser yn marw yn 35 oed.  Cyn ei f/marwolaeth roedd ef/hi yn ennill £42,000 y flwyddyn, roedd ganddo/ganddi bartner sifil a phensiwn a grynhowyd o £10,000 ar ôl 11 mlynedd o wasanaeth a oedd yn llunio ei bensiwn cronnol ef/hi.

Cyfrifir y pensiwn mewn gwasanaeth yn ôl yr un patrwm â'r pensiwn ymddeoliad afiechyd haen uchaf a gynyddwyd ac mae'n cyfateb i $\frac{£42{,}000}{55.3} \times \frac{60-35}{2}$ = £9,494 y flwyddyn (gweler adran 6.3 'Pensiwn afiechyd haen uwch a gynyddwyd').

Felly mae pensiwn tybiannol yr aelod yn £19,494 y flwyddyn (= £9,494 + £10,000).

| |
|---|
| Mae gan y partner sifil hawl i dderbyn 50% o bensiwn tybiannol yr aelod, a bydd yn cael £9,747 y flwyddyn. |

Os yw eich priod neu bartner sifil fwy na 12 mlynedd yn iau na chi, bydd ei phensiwn/ei bensiwn yn cael ei ostwng i adlewyrchu'r gwahaniaeth oedran. Bydd y gostyngiad hwn yn 2.5% am bob blwyddyn y mae eich priod neu bartner sifil fwy na 12 mlynedd yn iau na chi, hyd at uchafswm o ostyngiad o 50%.

Os byddwch yn priodi neu'n llunio partneriaeth sifil chwe mis neu lai cyn dyddiad eich marwolaeth, yna mae gan yr Awdurdod Pensiwn Heddlu hawl i ddal y pensiwn sy'n daladwy i'ch priod neu bartner sifil yn ôl.

### 10.2.2 Partneriaid a ddatganwyd

Partner a ddatganwyd yw rhywun y mae gennych berthynas tymor hir ag ef neu hi ond nad ydych yn briod nag mewn partneriaeth sifil.

Os oes gennych bartner nad yw yn briod â chi nag yn bartner sifil i chi, efallai y gall pensiwn goroeswyr gael ei dalu iddo/iddi am oes ar yr un sail â phetai ef/hi wedi bod yn briod neu bartner sifil i chi, ond nid yw hyn yn digwydd yn awtomatig. I bensiwn fod yn daladwy, rhaid i chi a'ch partner fod wedi llenwi ac anfon ffurflen ddatgan ar y cyd at yr Awdurdod Pensiwn Heddlu i gadarnhau bod y canlynol yn berthnasol:

- eich bod wedi byw gyda'ch gilydd am gyfnod pan fu eich partner yn ddibynnol yn ariannol arnoch, neu eich bod chi eich dau wedi bod yn ddibynnol ar eich gilydd yn ariannol.
- mae'r berthynas yn un lle mae ymrwymiad i'ch gilydd a neb arall ac yn un tymor hir.
- eich bod yn rhydd i briodi eich gilydd (neu ffurfio partneriaeth sifil gyda'ch gilydd), ac
- eich bod yn cytuno i roi gwybod i'r Awdurdod Pensiwn Heddlu os bydd y berthynas yn dod i ben.

**Er mwyn i bensiwn gael ei dalu i bartner nad yw'n briod â chi nac yn bartner sifil bydd angen iddo ef/iddi hi gael ei d/datgan yn bartner trwy lenwi ffurflen datgan ar y cyd.**

Cyn y gall unrhyw fuddion gael ei talu i'ch partner a ddatganwyd ar eich marwolaeth, rhaid iddo/iddi fodloni'r Awdurdod Pensiwn Heddlu bod y 3 datganiad cyntaf yn y datganiad ar y cyd yn dal yn ddilys ar adeg eich marwolaeth a'ch bod wedi cyd-fyw am o leiaf 2 flynedd ar adeg eich marwolaeth. Gall yr Awdurdod Pensiwn Heddlu hefyd ofyn am wybodaeth i gefnogi i gadarnhau dibyniaeth ariannol, fel cadarnhau eich bod yn rhannu gwariant yr aelwyd neu gyfrifon banc ar y cyd.

Disgwylir cyfnod o gyd-fyw o ddwy flynedd o leiaf i bensiwn gael ei dalu i bartner a ddatganwyd, ond gall yr Awdurdod Pensiwn Heddlu arfer disgresiwn i dalu pensiwn i bartner a ddatganwyd mewn perthynas fyrrach. Wrth arfer disgresiwn, rhaid i'r Awdurdod Pensiwn Heddlu fod yn fodlon eich bod chi a'ch partner a ddatganwyd yn byw gyda'ch gilydd mewn perthynas ymroddedig i'ch gilydd a neb arall ac yn un tymor hir, a bod eich partner a ddatganwyd yn ddibynnol yn ariannol arnoch neu eich bod yn ddibynnol ar eich gilydd. Mae penderfyniad yr Awdurdod Pensiwn Heddlu ar y materion hyn yn derfynol.

Yn yr un modd â phriod neu bartner sifil, os yw eich priod a ddatganwyd fwy na 12 mlynedd yn iau na chi, bydd ei phensiwn/ei bensiwn yn cael ei ostwng i adlewyrchu'r gwahaniaeth oedran. Bydd y gostyngiad hwn yn 2.5% am bob blwyddyn y mae ef neu hi fwy na 12 mlynedd yn iau na chi, hyd at uchafswm o ostyngiad o 50%.

**Rydych yn cael eich annog i lenwi ffurflen ddatgan gyda'ch partner cyn gynted ag y byddwch yn ystyried bod eich perthynas gyd-fyw yn un ymroddedig i'ch gilydd a neb arall ac yn un dymor hir. Gallwch gael ffurflen gan eich gweinyddwr pensiynau. Eich cyfrifoldeb chi yw diddymu'r datganiad os daw'r berthynas i ben.**

## *10.3 Plant sy'n goroesi*

Os byddwch farw tra byddwch yn:

- Aelod Gweithredol gyda 2 flynedd o Wasanaeth Cymwys,
- derbyn pensiwn neu
- â hawl i dderbyn Pensiwn Gohiriedig pan fyddwch yn cyrraedd eich SPA,

bydd pensiwn yn daladwy i unrhyw blentyn cymwys.

Plentyn cymwys yw;

- plentyn sy'n blentyn naturiol i chi, yn llysfab neu'n llysferch neu'n blentyn mabwysiedig, ac
- unrhyw blentyn arall oedd yn sylweddol ddibynnol arnoch (naill ai yn ariannol neu oherwydd anabledd) ar adeg eich marwolaeth.

Mae buddion i blant cymwys yn daladwy i blant a enir ar ôl eich marwolaeth os yw mam y plentyn yn feichiog ar adeg eich marwolaeth, gan gynnwys y sefyllfa os mai chi yw'r fam a'ch bod yn marw ar enedigaeth y plentyn.

Yn gyffredinol mae'r pensiwn sy'n daladwy i blentyn cymwys yn 25% o'ch hawl i bensiwn ar adeg eich marwolaeth, ond os oes tri neu fwy o blant cymwys, mae pob un yn derbyn swm sy'n cyfateb i 50% o'ch hawl pensiwn wedi ei rannu yn ôl y nifer o blant cymwys. Mae'r hawl pensiwn at y diben hwn ar yr un sail ag ar gyfer oedolion sy'n goroesi, e.e.

- os byddwch farw tra byddwch yn Aelod Gweithredol a bod gennych o leiaf ddwy flynedd o Wasanaeth Cymwys, mae'n 25% o'r pensiwn afiechyd y byddech wedi ei dderbyn petaech yn anaddas yn feddygol yn barhaol i waith arferol ar adeg eich marwolaeth.

**Enghraifft 11**

Mae gan bensiynwr afiechyd yng Nghynllun 2015 dri o blant cymwys dan 19 oed. Mae ei bensiwn ef/phensiwn hi yn £18,000 y flwyddyn.

Petai ef/hi yn marw, byddai pob un o'i b/phlant cymwys yn derbyn pensiwn plentyn wedi ei gyfrifo fel $\frac{50\% \times £18,000}{3}$ = £3,000 y flwyddyn (gan fod 3 o blant cymwys i gyd)

Dim ond nes y bydd yn cael ei ben-blwydd yn 19 oed y mae plentyn yn parhau yn gymwys oni bai:

- ei fod ef/ei bod hi mewn addysg llawn amser ar gwrs sydd yn parhau am flwyddyn o leiaf, ac yna mae'r pensiwn yn daladwy tra bydd yr addysg amser llawn yn parhau ond ddim tu hwnt i ben-blwydd y plentyn yn 23, neu
- nad yw ef/hi yn medru cymryd gwaith arferol oherwydd nam corfforol neu feddyliol sy'n debygol o fod yn barhaol ar ddyddiad eich marwolaeth, ac yna mae'r pensiwn yn daladwy am oes.

## *10.4 Cyfandaliad grant marwolaeth*

Os byddwch yn marw tra byddwch yn Aelod Gweithredol, bydd cyfandaliad grant marwolaeth o dair gwaith eich Enillion Pensiynadwy blynyddol ar adeg eich marwolaeth (Cyflog Terfynol) yn cael ei dalu:

- i'ch priod neu bartner sifil sy'n goroesi,
- os nad oes gennych briod, neu bartner sifil yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Pensiwn Heddlu, i bartner a ddatganwyd (gweler adran 10.2.2 'Partneriaid a ddatganwyd')
- os nag oes gennych briod, partner sifil, na phartner a ddatganwyd yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Pensiwn Heddlu, i unigolyn a enwebwyd gennych chi
- Fel arall, i'ch cynrychiolydd cyfreithiol personol – ysgutor eich ewyllys fel arfer – a bydd felly yn rhan o'ch ystâd.

Nid oes cyfnod gofynnol o wasanaeth yn angenrheidiol er mwyn bod yn gymwys i gael cyfandaliad grant marwolaeth o dair gwaith swm cyflog blynyddol y swyddog. Ar gyfer aelodau lle mae'r flwyddyn olaf o wasanaeth yn llai na 12 mis, neu gyfanswm eich gwasanaeth yn llai na 12 mis (os ydych yn aelod trosiannol â pharhad gwasanaeth caiff eich gwasanaeth pensiynadwy o gynllun cyfredol ei gyfrif), defnyddir eich cyflog blynyddol i gyfrifo'r cyfandaliad grant marwolaeth.

Os dymunwch enwebu rhywun i gael eich cyfandaliad grant marwolaeth dylech lenwi ffurflen enwebu (y gallwch ei chael gan eich gweinyddwr pensiynau). Nid yw enwebiad yn drech na'r ddarpariaeth y bydd y grant yn mynd i briod sy'n goroesi, partner sifil neu bartner a ddatganwyd, os oes gennych un, ond fe fyddai'n dod i rym os nad oes gennych briod, partner sifil na phartner a ddatganwyd neu petaech chi a'ch priod, partner sifil neu bartner a ddatganwyd yn marw ar yr un pryd.

Sylwer nad yw enwebiad am gyfandaliad grant marwolaeth yr un fath â datganiad partner a ddatganwyd, sy'n cael ei drafod yn adran 10.2.2. Mae'r enwebiad ar gyfer cyfandaliad grant marwolaeth yn ymwneud yn unig â thalu'r grant hwnnw. Dylech gysylltu â'ch gweinyddwr pensiynau os nad ydych yn sicr am effaith enwebiad.
Os ydych yn gweithio rhan-amser, bydd y cyfandaliad dair gwaith eich Enillion Pensiynadwy blynyddol (Cyflog Terfynol) a delir i chi am eich gwaith rhan-amser.

**Enghraifft 12**

Mae aelod rhan-amser o'r llu heddlu yn marw tra bydd yn aelod o Gynllun 2015.
Pan fu hi/ef farw roedd ei H/Enillion Pensiynadwy blynyddol yn £8,400 y flwyddyn a'i g/chyflog cyfatebol llawn amser yn £21,000 y flwyddyn.

| |
|---|
| Y cyfandaliad grant marwolaeth fyddai'n daladwy ar ei f/marwolaeth fyddai £8,400 × 3 = £25,200.<br><br>Byddai ei dibynyddion/ddibynyddion hefyd yn derbyn buddion yn unol ag adrannau 10.2 a 10.3 |

### *10.5 Arian rhodd marwolaeth – ystâd*

Os byddwch yn marw yn Aelod Gohiriedig neu yn Bensiynwr a bod y farwolaeth o ganlyniad i niwed a gawsoch wrth gyflawni eich dyletswydd neu eich bod yn marw fel Pensiynwr cyn pen 2 flynedd o fynd yn Bensiynwr, yna efallai y rhoddir rhodd i'ch ystâd. Os, pan fyddwch farw, bydd y buddion amrywiol sy'n daladwy dan Gynllun 2015 (ac eithrio'r cyfandaliad grant marwolaeth) yn llai na chyfanswm eich cyfraniadau pensiwn eich hun, bydd budd ychwanegol sy'n cyfateb i weddill y cyfraniadau hynny yn cael ei dalu i'ch ystâd.

### *10.6 Arian rhodd marwolaeth – dibynnydd*

Os byddwch yn marw yn Aelod Gohiriedig neu yn Bensiynwr a bod y farwolaeth o ganlyniad i niwed a gawsoch wrth gyflawni eich dyletswydd neu eich bod yn marw fel Pensiynwr cyn pen 2 flynedd o fynd yn Bensiynwr, yna efallai y rhoddir rhodd i'ch dibynnydd. Gall yr Awdurdod Pensiwn Heddlu, yn ôl ei ddisgresiwn, roi'r rhodd i'ch dibynnydd yr oeddent yn credu ei fod yn ddibynnol arnoch naill ai yn ariannol neu oherwydd nam corfforol neu feddyliol pan fuoch farw.

## 11. Trosglwyddo buddion i Gynllun 2015 ac allan ohono

### *11.1 Trosglwyddo buddion pensiwn i mewn*

Os oeddech mewn cynllun pensiwn arall neu eich bod wedi cyfrannu at bensiwn personol, efallai y bydd yn bosibl i chi drosglwyddo eich buddion pensiwn i Gynllun 2015.

Os byddwch yn gwneud cais i drosglwyddo buddion pensiwn, byddwch yn cael gwybod faint o bensiwn y byddai'r trosglwyddiad yn ei roi yng Nghynllun 2015, i chi fedru penderfynu a ydych am symud ymlaen i drosglwyddo neu ddewis cadw'r buddion yn eich cynllun blaenorol. Efallai na fydd y gwerth trosglwyddo yn prynu yr un faint o bensiwn a grynhowyd yng Nghynllun 2015 ag a oedd gennych yn eich cynllun blaenorol.

Os yw eich cynllun pensiwn blaenorol yn y Clwb Trosglwyddo Sector Cyhoeddus (y Clwb), gall y pensiwn a drosglwyddir fod yn fwy nag y byddai pe derbynnid trosglwyddiad o gynllun pensiwn arall.  Ond, mae'n rhaid i chi wneud cais i drosglwyddo unrhyw fuddion gohiriedig o gynllun Clwb arall cyn pen 12 mis o ymuno â Chynllun 2015. Gellir gweld rhestr lawn o gynlluniau Clwb o ddefnyddio'r ddolen isod, neu gallwch ofyn i'ch gweinyddwr pensiynau am fanylion: www.civilservicepensionscheme.org.uk/members/public-sector-transfer-club/

Os byddwch yn ymuno â Chynllun 2015 ar ôl gadael Cynllun Pensiwn Heddlu Gogledd Iwerddon 2015 neu Gynllun Pensiwn Heddlu yr Alban 2015, mae unrhyw bensiwn a grynhowyd yn y Cynllun hwnnw yn cael ei drosglwyddo i Gynllun 2015.

Sylwer, os oes gennych fwlch yn eich gwasanaeth sy'n fwy na 5 mlynedd, efallai na fydd y darpariaethau uchod yn berthnasol.

### 11.1.1 Symud rhwng lluoedd heddlu

Os byddwch yn symud rhwng lluoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr ni fydd eich hawliau pensiwn yn newid. Yn benodol:

- byddwch yn parhau yng Nghynllun 2015;
- mae swm y pensiwn a grynhowyd yng Nghynllun 2015 yn aros yr un fath;

## *11.2 Trosglwyddo buddion pensiwn allan*

Os byddwch yn gadael y llu heddlu neu yn dewis eithrio o Gynllun 2015 cyn NPA, efallai y bydd gennych ddewis o opsiynau ar gyfer eich buddion. Bydd eich dewis yn dibynnu ar hyd eich Gwasanaeth Cymwys.

Os yw cyfanswm eich Gwasanaeth Cymwys yn llai na thri mis, yna bydd eich cyfraniadau yn cael eu had-dalu.

Os yw cyfanswm eich Gwasanaeth Cymwys yn dri mis neu fwy ond yn llai na dwy flynedd, eich dewis yw:

- trosglwyddo eich Buddion Cynllun 2015 i gynllun pensiwn arall, neu
- ad-daliad o'ch cyfraniadau.

Os oes gennych ddwy flynedd neu fwy o Wasanaeth Cymwys eich dewisiadau yw:

- trosglwyddo eich Buddion Cynllun 2015 allan i gynllun pensiwn arall, neu
- gadw buddion gohiriedig yng Nghynllun 2015.

### 11.2.1 Trosglwyddiadau i gynlluniau pensiwn eraill

Efallai y byddwch yn gallu trosglwyddo eich buddion Cynllun 2015 i:

- gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall, neu
- gynllun pensiwn arall sydd wedi ei gofrestru gyda Chyllid a Thollau EM.

Bydd y taliad trosglwyddo ar ffurf gwerth trosglwyddo yn cyfateb i arian parod. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyfyngu ar drosglwyddiadau o gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus nad ydynt yn cael eu cyllido (fel cynlluniau pensiwn yr heddlu) i Gynlluniau Pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig a threfniadau buddion hyblyg eraill o 6 Ebrill 2015.

Mae nifer o faterion i'w hystyried cyn trosglwyddo:

- Dylech fod yn ymwybodol y gall cyfyngiadau amser fod yn berthnasol (e.e. 12 mis i drosglwyddo ar ôl ymuno â chynllun clwb)

- Os byddwch yn derbyn ad-daliad o'ch cyfraniadau, nid oes gennych hawl i Bensiwn Gohiriedig a dim ond os gwnewch chi ad-dalu yr ad-daliad cyfraniadau yn gyntaf y bydd trosglwyddo allan yn bosibl.
- Efallai na fydd y gwerth trosglwyddo yn prynu yr un faint o bensiwn a grynhowyd yn eich cynllun newydd – dylai amcangyfrif gan eich cynllun newydd roi syniad i chi.

Gall eich gweinyddwr pensiynau roi enghraifft o gyfrifiad gwerth trosglwyddo a rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r ffordd y mae trefniadau Cynllun 2015 yn gweithio, ond ni all roi cyngor penodol ar achosion unigol.

## 12. Diogeliad sy'n cyfyngu ac aelodau gyda hawliau wedi eu crynhoi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006

Aelodau Trosiannol yw'r rhai oedd â hawliau wedi eu crynhoi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 a ddaeth yn aelodau o Gynllun 2015. Bydd rhai Aelodau Trosiannol yn symud o'u Cynllun presennol i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill 2015 tra bydd gan eraill Ddiogeliad sy'n Cyfyngu a byddant yn aros yn eu cynllun presennol tan ar ôl 1 Ebrill 2015 gan ymuno â Chynllun 2015 ar ôl i'r Cyfnod Diogeliad sy'n Cyfyngu ddod i ben.

Nodir y meini prawf cymhwyso ar gyfer Diogeliad sy'n Cyfyngu yn y Fframwaith Dylunio Diwygiad dyddiedig 4 Medi 2012:
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/117692/reform-design-framework.pdf

### *12.3 Hawliau wedi eu crynhoi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006.*

Hawliau wedi eu crynhoi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 yw'r buddion y mae Aelod Trosiannol eisoes wedi eu casglu dan y Cynlluniau hynny.

Mae Rheoliadau 2015 yn diogelu hawliau a grynhowyd dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 ar gyfer Aelodau Trosiannol fel a ganlyn:

- Os ydych yn Aelod Trosiannol, wrth gyfrifo'r buddion taladwy i chi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006, y cyflog terfynol ar gyfer y Ddolen Cyflog Terfynol yw'r cyflog yr ydych yn ei ennill yng Nghynllun 2015 yn hytrach na'r cyflog yr oeddech yn ei gael pan wnaethoch adael Cynllun 1987 neu Gynllun 2006.

- Os ydych yn Aelod Trosiannol o Gynllun 1987 gyda pharhad yn eich gwasanaeth, mae cydnabyddiaeth lawn o'ch disgwyliad o grynhoad dwbl ar gyfer gwasanaeth pensiynadwy dan Gynllun 1987. Defnyddir cyfanswm y nifer o flynyddoedd dan Gynllun 1987 a Chynllun 2015 i gyfrifo cyfradd grynhoi gyfartalog i'w ddefnyddio ar gyfer eich Cyflog Terfynol. Am ragor o wybodaeth gallwch gyfeirio at Gylchlythyr y Swyddfa Gartref 014/2013, trwy ddilyn y ddolen isod:
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/259721/Circular_014-2013_-_further_information_on_long-term_reform.pdf

**Enghraifft 13**

Mae aelod wedi gweithio llawn amser gyda 15 mlynedd o wasanaeth yng Nghynllun 1987 a 10 mlynedd yng Nghynllun 2015. Mae gan yr aelod felly 25 mlynedd o wasanaeth llawn parhaus yng Nghynllun 1987 a Chynllun 2015.

Pennir cyfradd grynhoi buddion Cynllun 1987 yr aelod hwn yn gyntaf trwy gyfrifo'r pensiwn damcaniaethol y byddai hi/ef yn ei gael petai ei g/wasanaeth cyfan wedi ei gyflawni yng Nghynllun 1987. Cyfrifir hyn fel a ganlyn,

Crynhoad damcaniaethol = 20 mlynedd ar 1/60 a 5 mlynedd ar 2/60

= 20/60 + 10/60

= 30/60 (y gellir ei fynegi hefyd fel 25/50)

Mewn geiriau eraill, byddai'r aelod yn gymwys am bensiwn fyddai'n cyfateb i 1/50 o'i ch/gyflog terfynol pensiynadwy cyfartalog am bob blwyddyn o wasanaeth dan Gynllun 1987 petai ei 25 mlynedd o wasanaeth i gyd wedi eu cyflawni yn y cynllun hwnnw. Mae'r gyfradd grynhoi gyfartalog yn yr enghraifft hon felly, yn 1/50. Ond, dim ond am gyfran o'r pensiwn damcaniaethol hwn y mae'r aelod yn gymwys ar sail ei g/wir wasanaeth o 15 mlynedd yng Nghynllun 1987. Cyfrifir hyn fel a ganlyn:

Gwir grynhoad = 15/25 x 25/50 = 15/50 (neu 30%)

Gall fod yn gymorth meddwl am hyn fel 15 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy yng Nghynllun 1987, gyda'r gyfradd grynhoi ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth wedi eu hail raddio o 1/60fed i 1/50fed i adlewyrchu'r cyfnod pan oedd yr aelod yn gwasanaethu dan Gynllun 2015

- Bydd Aelodau Trosiannol 1987 (h.y. aelodau sydd â buddion wedi crynhoi dan Gynllun 1987) yn medru cael mynediad at y buddion hyn pan fyddant yn

gymwys i ymddeol dan Gynllun 1987 ar uchafswm pensiwn heb ei ostwng (h.y. gyda 30 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy; 50 oed gyda 25 mlynedd neu fwy o wasanaeth pensiynadwy; neu ar oedran ymddeoliad gwirfoddol yr aelod), yn amodol ar reolau gostwng y cynllun hwnnw (y gostyngiad dros dro mewn taliadau pensiwn a all gael ei osod gan yr Awdurdod Pensiwn Heddlu os bydd aelod yn cael ei ail gyflogi ar ôl ymddeol. **Nid yw hyn yn berthnasol i Gynllun 2015**). I Aelod Trosiannol gyda gwasanaeth parhaus, bydd gwasanaeth pensiynadwy ar gyfer diben cyfrifo hawl i fuddion dan Gynllun 1987 yn cynnwys cyfanswm y cyfnod o wasanaeth pensiynadwy parhaus dan Gynllun 1987 a Chynllun 2015.

- Bydd Aelodau Trosiannol 2006 (h.y. aelodau gyda buddion wedi crynhoi dan Gynllun 2006) yn gallu cael mynediad at eu buddion dan y cynllun hwnnw pan fyddant yn ymddeol ar oedran pensiwn arferol y cynllun hwnnw neu ar ôl hynny (h.y. 55 oed).

- Bydd Aelodau Trosiannol 1987 yn parhau i gael yr hawl i gyfnewid pensiwn dan Gynllun 1987 am gyfandaliad arian parod wrth ymddeol. Bydd hyn yn seiliedig ar ffactorau cymudo wedi eu hasesu yn actwaraidd a nodir dan y cynllun hwnnw.

Sylwer, os gwelwch yn dda, os nad oes gennych wasanaeth parhaus, efallai na fydd yr uchod yn berthnasol.

### *12.4 Diogeliad sy'n cyfyngu*

Os ydych o fewn 4 blynedd i fod yn gymwys am Ddiogeliad Trosiannol Llawn (gweler Atodiad A) dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006, o 1 Ebrill 2012 bydd gennych Ddiogeliad sy'n Cyfyngu. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd am bob mis yr oeddech yn nes at fod yn gymwys am Ddiogeliad Trosiannol Llawn byddwch yn ennill tua 53 diwrnod o ddiogeliad. Yn ystod y Cyfnod Diogeliad sy'n Cyfyngu byddwch yn parhau yn aelod o'ch cynllun heddlu presennol gan grynhoi buddion dan

y cynllun hwnnw. Os yw hyn yn berthnasol i chi, mae’r Cyfnod Diogeliad sy’n Cyfyngu yn dod i ben rywbryd cyn 1 Ebrill 2022. Ar ddiwedd y Cyfnod Diogeliad sy’n Cyfyngu, byddwch yn dod yn aelod o Gynllun 2015 oni bai eich bod yn dewis eithrio.

Bydd hyn yn berthnasol i Aelodau Gweithredol:

- sydd yng Nghynllun 1987 a Chynllun 2006 a oedd, ar 1 Ebrill 2012 rhwng 41 a 45 mlwydd oed;
- sydd yng Nghynllun 1987 a oedd, ar 1 Ebrill 2012 10 mlynedd neu lai o fedru ymddeol ar yr uchafswm pensiwn, heb ei ostwng ac a oedd rhwng 34 a 38 mlwydd oed.
- sydd yng Nghynllun 1987 a oedd, ar 1 Ebrill 2012 yn 38 mlwydd neu hŷn (hyd at 45 oed) a rhwng 14 a 10 mlynedd o fedru ymddeol ar yr uchafswm pensiwn, heb ei ostwng;
- sydd yng Nghynllun 1987 a oedd, ar 1 Ebrill 2012 yn iau na 38 mlwydd oed a mwy na 10 mlynedd o fedru ymddeol ar yr uchafswm pensiwn, heb ei ostwng. Mae hyn yn berthnasol pan fydd eich oedran, tynnu’r blynyddoedd o fedru ymddeol ar uchafswm pensiwn heb ei ostwng rhwng 24 a 28 mlynedd.

## *12.5 Trosglwyddiadau buddion pensiwn i mewn*

### 12.5.1 Trosglwyddiadau i mewn o glwb trosglwyddo’r sector cyhoeddus

Os byddwch chi yn trosglwyddo buddion cyflog terfynol o gynllun Clwb arall, bydd y buddion hynny yn cael eu trosglwyddo i mewn i Gynllun 2006. Bydd eich Dolen Cyflog Terfynol yn cael ei gynnal felly bydd eich buddion cyflog terfynol yn seiliedig ar eich Enillion Pensiynadwy terfynol yng Nghynllun 2015.

Os byddwch yn trosglwyddo buddion cyfartalog gyrfa o Gynllun Clwb 2015 arall byddant yn cael eu trosglwyddo i Gynllun 2015.

Byddwch yn cael gwybod faint o gredyd gwasanaeth sydd ar gael yng Nghynllun 2006 a faint o bensiwn y bydd trosglwyddiad yn ei roi yng Nghynllun 2015 fel y mae’n

berthnasol, i chi fedru penderfynu a ydych am symud ymlaen i drosglwyddo neu ddewis cadw'r buddion eraill sydd ar gael o'ch cynllun blaenorol.

## *12.6 Trosglwyddo buddion pensiwn allan*

### 12.6.1 Symud rhwng lluoedd heddlu

Os byddwch yn symud rhwng lluoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr ni fydd eich hawliau pensiwn yn newid, yn benodol:

- byddwch yn parhau yng Nghynllun 2015;
- mae swm y pensiwn a grynhowyd yng Nghynllun 2015 yn aros yr un fath;
- bydd unrhyw gyfnod o wasanaeth sydd gennych yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006 yn aros yr un fath;
- bydd eich Dolen Cyflog Terfynol yn cael ei gynnal, felly bydd eich buddion yng Nghynllun 1987 a Chynllun 2006 yn seiliedig ar eich Enillion Pensiynadwy terfynol pan fyddwch yn gadael Cynllun 2015, heb roi unrhyw ystyriaeth i symudiadau rhwng lluoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr;
- os oeddech yn gymwys ar gyfer Diogeliad sy'n Cyfyngu, bydd dyddiad eich trosglwyddiad i Gynllun 2015 yn aros yr un fath.

Os byddwch yn ymuno â Chynllun 2015 ar ôl gadael Cynllun Pensiwn Heddlu Gogledd Iwerddon 2015 neu Gynllun Pensiwn Heddlu yr Alban 2015, mae unrhyw bensiwn a grynhowyd yn y Cynllun hwnnw yn cael ei drosglwyddo i Gynllun 2015.

Bydd unrhyw fuddion o Gynllun 1987 a Chynllun 2006 yn parhau i gael eu cysylltu â'r Enillion Pensiynadwy terfynol yn eich cynllun newydd ar yr amod nad oes unrhyw fylchau yn eich gwasanaeth sy'n fwy na 5 mlynedd.

# 13. Talu buddion

## *13.1 Trefniadau cyffredinol*

Telir pensiynau ymddeoliad gan yr Awdurdod Pensiwn Heddlu ar gyfer y llu y gwnaethoch ymddeol ohono. Mae pensiynau yn daladwy ymlaen llaw, bob mis fel arfer trwy drosglwyddiad credyd i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Bydd buddion goroeswyr yn cael eu talu cyn gynted â phosibl ar ôl marwolaeth aelod (rhaid cael amser i gysylltu gyda'r goroeswr a sefydlu ei hawl). Telir y taliadau dilynol i oroeswyr yn fisol.

Telir pensiynau a chyfandaliadau i'r goroeswr oni bai bod yr unigolyn hwn dan 18 oed neu nad yw'n gallu rheoli ei faterion ariannol ef neu hi ei hunan. Rhaid i bensiwn plentyn cymwys sy'n daladwy i blentyn cymwys sydd dan 18 ac sydd yng ngofal eich goroeswr sy'n oedolyn gael ei dalu i'r goroeswr sy'n oedolyn.

Os yw eich taliadau pensiwn (am eich holl bensiynau ac eithrio Pensiwn y Wladwriaeth) yn fychan a'ch bod wedi cyrraedd eich SPA, gallwch ofyn am i'r holl daliadau Cynllun pensiwn 2015 sy'n weddill gael eu talu fel cyfandaliad, a gall y cyfan fod yn drethadwy. Gelwir hyn yn 'gymudiad dibwys' yng ngeirfa Cyllid a Thollau EM. Mae rheolau HMRC yn rheoli yr hyn all fod yn daladwy.

Dim ond i chi y gall eich pensiwn Cynllun 2015 gael ei dalu.

## *13.2 Buddion pensiwn y wladwriaeth*

SPA yw'r oedran pan fyddwch yn dod yn gymwys am Bensiwn y Wladwriaeth, ar yr amod eich bod yn bodloni meini prawf cymhwyster.

Ar hyn o bryd mae SPA yn 65 i ddynion. Mae gan fenywod a aned ar neu ar ôl 6 Ebrill 1950 a chyn 6 Rhagfyr 1953 SPA o rhwng 60 a 65, gan ddibynnu ar eu dyddiad geni. Mae'r SPA ar gyfer menywod wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2010, er mwyn i SPA dynion a merched fod yn gyfartal erbyn Tachwedd 2018.

O 6 Tachwedd 2018 bydd yr SPA yn 65 i ddynion a menywod.

O Ragfyr 2018 bydd yr SPA i ddynion a menywod yn dechrau cynyddu i gyrraedd 66 erbyn Hydref 2020. Bydd yn cynyddu i 67 rhwng 2026 a 2028.

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i adolygu SPA yn gyson, o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yr adolygiadau yn gwneud argymhellion am newidiadau i SPA yn y dyfodol, ar sail ystyried data disgwyliadau oes a ffactorau perthnasol ehangach. Dan y ddeddfwriaeth bresennol, bydd SPA yn codi i 68 rhwng 2044 a 2046. Gall yr amserlen ar gyfer codi i 68 newid o ganlyniad i adolygiadau yn y dyfodol.

Er mwyn cyfrifo eich SPA unigol ar sail yr amserlen bresennol, ewch i: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/310231/spa-timetable.pdf

Os byddwch yn cyrraedd eich SPA cyn 6 Ebrill 2016, efallai y byddwch yn cael pensiwn sylfaenol y wladwriaeth yn unol â'r rheolau presennol. Gall y swm y byddwch yn ei gael amrywio gan ddibynnu ar y cyfraniadau Yswiriant Gwladol yr ydych wedi eu talu neu sydd wedi eu credydu i chi. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae arnoch angen 30 o flynyddoedd o gyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi eu talu neu eu credydu i gael pensiwn sylfaenol y wladwriaeth llawn. Mae pensiwn sylfaenol y wladwriaeth yn daladwy yn ychwanegol at eich pensiwn o gynlluniau pensiwn yr heddlu. Ond, ni fyddwch yn derbyn unrhyw Ail Bensiwn y Wladwriaeth o ran yr amser y buoch yn aelod o unrhyw un o gynlluniau pensiwn yr heddlu rhwng 6 Ebrill 1978 a 6 Ebrill 2016 gan fod y cynlluniau heddlu wedi eu 'contractio allan' o SERPS/Ail Bensiwn y Wladwriaeth sy'n golygu eich bod wedi talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol is ac yn eu tro roedd gofyn i gynlluniau'r heddlu ddarparu buddion i chi oedd o leiaf cystal â'r rhai y byddech wedi eu derbyn dan SERPS/Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Os byddwch yn cyrraedd eich SPA ar ôl 5 Ebrill 2016 bydd Pensiwn y Wladwriaeth un haen newydd yn cymryd lle'r Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth dwy haen.

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn rhan bwysig o'ch incwm ymddeol. Gallwch gael gwybod faint fydd eich Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cofnod Yswiriant

Gwladol presennol trwy gael datganiad Pensiwn y Wladwriaeth. Cewch wybod sut i gael un yn: www.gov.uk/state-pension-statement

### *13.3 Pensiynau yn cynyddu gyda chwyddiant*

Bydd pensiynau sy'n cael eu talu yn cael eu cynyddu'n flynyddol. Telir y cynnydd hwn i bob pensiynwr sydd wedi cyrraedd NMPA. Mae Pensiynau Gohiriedig hefyd yn cael eu cynyddu i gynnal eu gwerth hyd at y dyddiad y byddant yn dod yn daladwy.

Cynyddir y taliadau hefyd:

- os byddwch, cyn cyrraedd eich NMPA, yn derbyn pensiwn afiechyd neu Bensiwn Gohiriedig a delir yn gynnar oherwydd afiechyd; ac
- i'ch goroeswyr sydd yn derbyn buddion goroeswyr.

Pan fydd y cynnydd yn y pensiwn yn daladwy bydd yn cyfrif symudiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ers dyddiad dechrau eich pensiwn.  Bydd y taliadau yn cael eu cynyddu ar ôl hynny ym mis Ebrill bob blwyddyn ac maent yn seiliedig ar y cynnydd yn y CPI yn y 12 mis hyd at ddiwedd y mis Medi cyn hynny.

Mae'r cynnydd yn y pensiwn yn cael ei weithredu ar bensiynau sy'n daladwy o Gynllun 2015 ble bynnag y byddwch yn byw ar ôl eich ymddeoliad, ond gall unrhyw gynnydd yn eich Pensiwn y Wladwriaeth ac unrhyw elfen Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP) yn eich pensiwn gael eu heffeithio os byddwch yn byw tu allan i'r Deyrnas Unedig.

## 14. Ail-benodi

Os ydych wedi gadael Gwasanaeth Addas gyda hawl i Bensiwn Gohiriedig a'ch bod yn cael eich ail-benodi fel aelod o lu heddlu, bydd eich bwlch mewn gwasanaeth yn effeithio ar y modd y mae eich pensiwn yn cael ei drin.

Eich ail-benodi ar ôl llai na 5 mlynedd:

- Bydd eich gwasanaeth cynharach a'ch gwasanaeth hwyrach yn ffurfio rhan o gyfnod parhaus o wasanaeth pensiynadwy.
- Bydd eich pensiwn Cynllun 2015 yn cael ei ailbrisio fel petaech, yn ystod y bwlch yn eich gwasanaeth, yn Aelod Gweithredol (h.y. wedi ei ailbrisio yn unol â CPI+1.25% y flwyddyn) ond fel petaech heb dderbyn unrhyw Enillion Pensiynadwy.
- Byddwch yn parhau i grynhoi pensiwn a enillwyd pan fyddwch yn cael eich ail-benodi.

Nid yw'r uchod yn berthnasol os byddwch yn dewis eithrio wrth ddychwelyd i Wasanaeth Cymwys.

Eich ail-benodi ar ôl 5 mlynedd neu fwy:

- Bydd eich pensiwn Cynllun 2015 gwreiddiol yn aros yn Bensiwn Gohiriedig a byddwch yn dechrau cyfnod parhaol newydd o wasanaeth pensiynadwy. Efallai y byddwch yn gymwys am bensiwn ar wahân yn ychwanegol i'ch Pensiwn Gohiriedig.  Nid oes dewis i gyfuno'r buddion hyn i wneud un pensiwn.

# 15. Amrywiol

## *15.1 Fforffedu buddion*

Gall rhan o'ch buddion gael eu dal yn ôl naill ai yn barhaol neu dros dro gan yr Awdurdod Pensiwn Heddlu os cewch eich collfarnu am:

- Un neu fwy o droseddau dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol yr ydych wedi cael eich dedfrydu ar yr un pryd amdanynt:
    - i o leiaf 10 mlynedd o garchar; neu
    - ddau neu fwy o gyfnodau olynol o garchar sy'n adio i 10 mlynedd o leiaf neu;
- Trosedd a gyflawnwyd yng nghyswllt eich gwasanaeth fel aelod o lu heddlu sydd wedi ei ardystio gan yr Ysgrifennydd Cartref naill ai i fod yn niweidiol iawn i fuddiannau'r Wladwriaeth neu o fod yn agored i arwain at golli hyder yn ddifrifol yn y llu heddlu (e.e. cynllwynio i wyrdroi cwrs cyfiawnder).

Gall yr Awdurdod Pensiwn Heddlu adolygu penderfyniad ar fforffedu ac adfer rhai o'r buddion i'r pensiynwr neu rywun sy'n derbyn budd yng nghyswllt pensiynwr.

## *15.2 Dim aseinio buddion*

Ni chaniateir i chi aseinio unrhyw fuddion.  Mae hyn yn golygu na allwch chi roi hawliau i unrhyw un arall dan Gynllun 2015.

### *15.3 Colli buddion*

Os byddwch yn mynd yn fethdalwr, bydd taliadau eich pensiwn yn amodol ar y Deddfau Methdaliad.

### *15.4 Diwygiadau i'r cynllun*

Gall Rheoliadau Pensiynau'r Heddlu 2015, a wneir dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, gael eu diwygio o dro i dro gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar ôl ymgynghori. Mae'n ofynnol i Reoliadau Diwygio a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol gael eu cyflwyno ger bron y Senedd.

Bydd gan eich gweinyddwr pensiynau restr gyfredol o ddiwygiadau.

### *15.5 Cyfyngiadau Cyllid EM*

Mae Cynllun 2015 yn 'gynllun pensiwn cofrestredig' ar gyfer dibenion treth. O ganlyniad mae nifer o gonsesiynau treth.

- didynnir y cyfraniadau o'ch cyflog cyn cyfrifo treth, sy'n golygu eich bod yn cael rhyddhad treth arnynt.
- mae eich cyfandaliad wedi ei gymudo yn ddi-dreth (yn amodol ar gyfyngiadau), fel y mae'r cyfandaliad grant marwolaeth a delir ar eich marwolaeth (yn amodol ar gyfyngiadau).

Ond, dylech gofio'r canlynol:

- Ni all cyfraniadau pensiwn sy'n gymwys am ryddhad treth fod yn fwy na chyfanswm eich enillion trethadwy yn unrhyw Flwyddyn Dreth.
- Mae cyfyngiadau ar y buddion y gallwch eu cymryd wrth ymddeol heb dynnu tâl treth ychwanegol. Os credwch y gall y cyfyngiadau yma effeithio arnoch chi dylech gysylltu â'ch gweinyddwr pensiynau a fydd yn gallu rhoi rhagor o fanylion i chi.

## *15.6 Y Gwasanaeth Olrhain Pensiwn*

Bydd y Gwasanaeth Olrhain Pensiwn yn caniatáu i chi ddod o hyd i bensiwn a gollwyd.  Mae'r gwasanaeth hwn am ddim a bydd yn rhoi cyfeiriad eich darparwr cynllun i chi os bydd y system Olrhain Pensiwn yn gallu canfod cofnod ohono. Gallwch lenwi ffurflen ar-lein yn: https://www.gov.uk/find-lost-pension

Fel arall, gallwch hefyd gysylltu â'r Gwasanaeth Olrhain Pensiwn dros y ffôn neu trwy'r post.

**Pension Tracing Service**
The Pension Service 9
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1LU
Teleffon: 0845 6002 537

**Atodiad A**

## Diogeliad llawn neu sy'n cyfyngu yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006

Bydd aelodau o Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 gyda Diogeliad Trosiannol Llawn neu Ddiogeliad sy'n Cyfyngu yn aros yn eu Cynlluniau presennol (i'r rhai gyda Diogeliad sy'n Cyfyngu, nes bydd eu Cyfnod Diogeliad sy'n Cyfyngu yn dod i ben). Nodir y meini prawf cymhwyso ar gyfer Diogeliad sy'n Cyfyngu yn y Fframwaith Dylunio Diwygiad dyddiedig 4 Medi 2012: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/117692/reform-design-framework.pdf

Os oes gennych Ddiogeliad Trosiannol Llawn neu Ddiogeliad sy'n Cyfyngu yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006 (ac nad yw eich Cyfnod Diogeliad sy'n Cyfyngu wedi dod i ben), ond eich bod yn dewis eithrio, wrth ddewis ailymuno byddwch yn cael eich ail-gofrestru ar Gynllun 2006 os nad oes gennych fwlch gwasanaeth sy'n fwy na 5 mlynedd.  Am wybodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd pan ddaw eich Diogeliad sy'n Cyfyngu i ben gweler adran 12 'Diogeliad sy'n cyfyngu ac aelodau gyda hawliau wedi eu crynhoi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006'.

### Diogeliad Trosiannol Llawn

Mae Diogeliad Trosiannol Llawn ar gyfer rhai categorïau o aelodau. Bydd gennych Ddiogeliad Trosiannol Llawn os:

- ydych yn aelod gweithredol o Gynllun 2006 a bod gennych 10 mlynedd neu lai hyd at eich NPA (h.y. 55 oed) ar 1 Ebrill 2012 neu;
- os ydych yn aelod gweithredol o Gynllun 1987 a bod gennych 10 mlynedd neu lai hyd at eich pen-blwydd yn 55 ar 1 Ebrill 2012, neu bod gennych 10 mlynedd neu lai hyd eich pen-blwydd yn 48 oed a'ch bod 10 mlynedd neu lai o uchafswm pensiwn heb ei ostwng ar 1 Ebrill 2012.

Os oes gennych Ddiogeliad Trosiannol Llawn ni fydd unrhyw newid o ran pryd y gallwch ymddeol ac ni fyddwch yn gweld unrhyw ostyngiad yn swm y pensiwn y byddwch yn ei dderbyn pan gyrhaeddwch eich NPA presennol.  Bydd y diogeliad hwn yn cael ei gyflawni os byddwch yn aros yn eich cynllun presennol nes byddwch yn ymddeol.

## Dychwelyd ar ôl bwlch yn eich gwasanaeth nad yw'n fwy na 5 mlynedd

Os oeddech yng Nghynllun 2006 cyn eich bwlch mewn gwasanaeth nad oedd yn fwy na 5 mlynedd, byddwch yn dychwelyd i Gynllun 2006 os oeddech yn gymwys am Ddiogeliad Trosiannol Llawn, neu os oeddech yn gymwys am Ddiogeliad sy'n Cyfyngu ac nad yw eich Cyfnod Diogeliad sy'n Cyfyngu wedi dod i ben.

Os oeddech yn gymwys am Ddiogeliad Trosiannol Llawn neu Ddiogeliad sy'n Cyfyngu yng Nghynllun 1987 cyn eich bwlch mewn gwasanaeth nad oedd yn fwy na 5 mlynedd, byddwch yn mynd i mewn i Gynllun 2006 nes bydd eich Diogeliad sy'n Cyfyngu yn dod i ben. Os yw eich bwlch mewn gwasanaeth yn fwy na 5 mlynedd neu fod eich Cyfnod Diogeliad sy'n Cyfyngu wedi dod i ben byddwch yn ymuno â Chynllun 2015 (gweler adran 12 'Diogeliad sy'n cyfyngu ac aelodau gyda hawliau wedi eu crynhoi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006').

## Trosglwyddiadau i mewn ac allan o fewn y Clwb Trosglwyddo Sector Cyhoeddus

## Trosglwyddo i Mewn

Os byddwch yn dewis trosglwyddo eich buddion neu beidio, os oeddech yn gymwys am Ddiogeliad Trosiannol Llawn neu Ddiogeliad sy’n Cyfyngu yn eich cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus blaenorol, efallai eich bod yn gymwys fel aelod a ddiogelir o Gynllun 2006. Byddwch yn ymuno â Chynllun 2006 os ydych yn gymwys am Ddiogeliad Trosiannol Llawn dan Gynllun 2006, neu os ydych yn gymwys am Ddiogeliad sy’n Cyfyngu dan Gynllun 2006 ac nad yw eich Cyfnod Diogeliad sy’n Cyfyngu wedi dod i ben. Ym mhob achos arall byddwch yn ymuno â Chynllun 2015.

## Trosglwyddo allan

Os byddwch yn dewis trosglwyddo eich buddion neu beidio, os oeddech yn gymwys am Ddiogeliad Trosiannol Llawn neu Ddiogeliad sy’n Cyfyngu yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006, efallai y byddwch yn gymwys am ddiogeliad pan fyddwch yn ymuno â’ch cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd. Gan ddibynnu ar reolau y cynllun y byddwch yn trosglwyddo iddo, fe allwch gael diogeliad llawn os oeddech yn gymwys am Ddiogeliad Trosiannol Llawn yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006 ac y byddech wedi cymhwyso am ddiogeliad llawn yn eich cynllun newydd ar 1 Ebrill 2012. Yn yr un modd, gallwch gael Diogeliad sy’n Cyfyngu os byddech yn gymwys am Ddiogeliad sy’n Cyfyngu yn eich cynllun newydd ar 1 Ebrill 2012 ac nad yw eich Cyfnod Diogeliad sy’n Cyfyngu wedi dod i ben.

**Atodiad B**

# Cymhariaeth rhwng Cynllun 2015, Cynllun 1987 a Chynllun 2006

| **Darpariaeth** | Cynllun 2015 | Cynlluniau 1987 a 2006 |
|---|---|---|
| **Llywodraethu** | Bwrdd Cynghori Cynllun (SAB) cenedlaethol i gynghori'r Ysgrifennydd Cartref ar y newidiadau. Sefydlu bwrdd pensiwn lleol i gynorthwyo'r Awdurdod Pensiwn Heddlu ar gyfer pob llu heddlu. Rôl fwy i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. | Cyn 1 Ebrill 2015, dim wedi ei nodi, er bod yr Awdurdodau Pensiwn Heddlu yn atebol i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu fel yr awdurdod sy'n goruchwylio pensiynau'r heddlu. O 1 Ebrill 2015 bydd y rhain yn dod dan SAB. |
| **Aelodaeth** | Holl aelodau cynlluniau blaenorol i ymuno â Chynllun 2015 oni bai eu bod yn gymwys am Ddiogeliad Trosiannol Llawn neu Ddiogeliad sy'n Cyfyngu. Bydd aelodau | Roedd gan aelodau Cynllun 1987 ddewis i symud i Gynllun 2006 (er mai ychydig a wnaeth). |

| | | |
|---|---|---|
| | gyda Diogeliad sy'n Cyfyngu yn ymuno â Chynllun 2015 ar ddiwedd eu cyfnod Diogeliad sy'n Cyfyngu. | |
| **Sail y pensiwn** | Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrisio. Ar sail 1/55.3 o Enillion Pensiynadwy yr aelod am bob blwyddyn. Nid oes uchafswm hyd aelodaeth na chyfyngiad ar fudd-daliadau. | Cyflog terfynol. Ar sail 1/60 o enillion aelod am yr 20 mlynedd cyntaf a 2/60 am bob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy, am uchafswm o 30 mlynedd (Cynllun 1987).<br>Ar sail 1/70 o Enillion Pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy hyd at uchafswm o 35 mlynedd (Cynllun 2006). Mae cyfandaliad ar wahân yn daladwy hefyd. |
| **Cymhwysedd ar gyfer aelodaeth** | Yn amodol ar gadarnhad meddygol ar gyfer dibenion buddion afiechyd yn unig i'r rhai sy'n ymuno o'r newydd. Ar agor i holl aelodau Cynllun 1987 a Chynllun 2006 nad oes ganddynt Ddiogeliad Trosiannol Llawn. Ar agor i holl aelodau Cynllun 1987 a Chynllun 2006 sydd â Diogeliad sy'n Cyfyngu pan ddaw Cyfnod eu Diogeliad sy'n Cyfyngu i ben. | Mae Cynllun 1987 ar gau i aelodau newydd.<br><br>Cyn 1 Ebrill 2015, yn amodol ar gadarnhad meddygol ar gyfer dibenion buddion afiechyd yn unig, ar agor i holl aelodau newydd llu heddlu. (Cynllun 2006) |
| **Oedran Pensiwn Arferol** | 60. Pensiwn ymddeoliad yn cael ei dalu ar neu ar ôl | Ar gyfer Cynllun 1987 o unrhyw oedran gyda 30 mlynedd o |

| | | |
|---|---|---|
| **(NPA)** | NPA ddim yn ddarostyngedig i Ostyngiad Actwaraidd. Bydd pensiwn ymddeoliad (heblaw pensiwn afiechyd neu bensiwn gohiriedig a delir yn gynnar ar sail afiechyd) a delir cyn NPA yn ddarostyngedig i Ostyngiad Actwaraidd. | wasanaeth, neu o 50 gyda 25 mlynedd o wasanaeth, neu yn 55 i bob cwnstabl a sarsiant gyda llai na 25 mlynedd o wasanaeth; 55 o Arolygydd i Brif Uwch-arolygydd yn yr Heddlu Metropolitan gyda llai na 25 mlynedd o wasanaeth; 57 i Gomander neu Ddirprwy Gomisiynydd Cynorthwyol yn yr Heddlu Metropolitan gyda llai na 25 mlynedd o wasanaeth; ym mhob achos arall yn 60 oed.<br>55 (Cynllun 2006) |
| **Oedran pensiwn gohiriedig** | Oedran Pensiwn y Wladwriaeth os bydd aelod yn dewis eithrio neu yn gadael y llu heddlu cyn NMPA neu cyn NPA heb gymryd pensiwn. | 50 os â 25 mlynedd o wasanaeth; fel arall o 60 oed (Cynllun 1987).<br>65 os bydd aelod yn dewis eithrio neu yn gadael y llu heddlu cyn 55 oed (Cynllun 2006); |
| **Cyfandaliad wedi ei gymudo** | Dim ond trwy gymudo, ar y gyfradd o £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a gymudwyd. | Dim ond trwy gymudo hyd at ¼ y pensiwn blynyddol (ar tua £20 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a gymudwyd, mae’r union gyfraddau yn dibynnu ar oedran wrth ymddeol) ar sail tablau actwaraidd mewn grym ar y pryd (Cynllun 1987).<br><br>Oes, ychwanegol yn hytrach na thrwy gymudo, 4 x pensiwn blynyddol cychwynnol (Cynllun 2006). |
| **Buddion ymddeoliad** | Ddim yn bosibl ar ôl i aelod gyrraedd NPA. Cyfrifir | Un haen o 1/60 o Enillion Pensiynadwy terfynol am bob |

| | | |
|---|---|---|
| **afiechyd** | haen isaf yn yr un ffordd â phensiwn ymddeol sy'n daladwy ar NPA. Haen Uchaf Wedi'i Gynyddu am 5+ mlynedd o wasanaeth ar sail hanner y cyfnod tybiedig o wasanaeth pensiynadwy hyd NPA.<br><br>*Amcangyfrif yw hwn fydd yn berthnasol yn y rhan fwyaf o achosion. Gweler adran 6 am ragor o wybodaeth.* | blwyddyn o Aelodaeth Weithredol ac ychwanegiadau ar ôl 5 mlynedd (a all wneud cymaint â dyblu gwasanaeth pensiynadwy) hyd at uchafswm pensiwn o 40/60 (neu'r hyn y gellid bod wedi ei gwblhau erbyn yr Oedran Ymddeol Gwirfoddol) o Enillion Pensiynadwy (Cynllun 1987).<br><br>Haen isaf = a chyfandaliad; haen uchaf a chyfandaliad. Ddim yn bosibl ar ôl i aelod gyrraedd 55 oed. Haen isaf = 1/70 o gyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Haen uchaf am 5+ mlynedd o wasanaeth = hanner y gwasanaeth disgwyliedig hyd 55 oed. (Cynllun 2006);<br><br>*Amcangyfrif yw hwn fydd yn berthnasol yn y rhan fwyaf o achosion. Gweler cyfarwyddyd 2006 am y cyfrifiadau manwl.* |
| **Cyfradd gyfrannu** | I aelodau mae hyn ar hyn o bryd rhwng 12.44% a 13.78% o Enillion Pensiynadwy.<br><br>I aelodau nad ydynt yn gymwys am fuddion ymddeoliad afiechyd mae rhwng 9.94% a 11.28% o | Ar hyn o bryd mae'n 14.25% i 15.05% (Cynllun 1987).<br>Ar hyn o bryd mae'n 11.0% i 12.75% (Cynllun 2006). |

| | | |
|---|---|---|
| | Enillion Pensiynadwy.<br><br>Bydd hyn yn dibynnu ar ba Haen sy'n berthnasol i'r aelod | |
| **Budd marwolaeth oedolion** | Pensiwn yn daladwy i briod, partner sifil neu bartner a ddatganwyd, am oes. Cyfandaliad grant marwolaeth = 3 x Cyflog Terfynol. | Pensiwn yn daladwy i briod neu bartner sifil yn unig, am oes hyd ailbriodi neu gyd-fyw. Cyfandaliad grant marwolaeth = 2 x cyflog pensiynadwy, yn daladwy yn unig i briod neu bartner sifil sy'n goroesi, fel arall y cynrychiolydd cyfreithiol personol (Cynllun 1987).<br>Pensiwn yn daladwy i briod neu bartner sifil neu bartner, am oes. Cyfandaliad grant marwolaeth = 3 x cyflog pensiynadwy (Cynllun 2006). |
| **Prynu pensiwn ychwanegol** | Cyfyngedig i £6,500 y flwyddyn (gall y terfyn gael ei newid gan Drysorlys EM). | 60fedau ychwanegol + cynllun Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (AVC) (Cynllun 1987); Blynyddoedd ychwanegol yn unig (dim Cynllun AVC) (Cynllun 2006). |

Atodiad C

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Aelod** | Sy'n golygu Aelod Gweithredol, Aelod Gohiriedig, Aelod sy'n Bensiynwr neu Aelod Credyd Pensiwn o Gynllun 2015 |
| **Aelodau mewn gwasanaeth rhan-amser** | Aelod o lu heddlu sydd mewn gwasanaeth rhan-amser dan ei delerau ac amodau cyflogi ef neu hi. |
| **Aelod credyd pensiwn** | Cyn-briod neu gynbartner sifil sydd wedi derbyn hawliau pensiwn dan Gynllun 2015 yn unol â gorchymyn rhannu pensiwn a wnaed wrth ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil. Bydd ef/hi yn derbyn Pensiwn o'u SPA. |
| **Aelod debyd pensiwn** | Aelod sydd wedi trosglwyddo rhan o'i hawliau pensiwn ef neu hi i gyn-briod neu gynbartner sifil dan orchymyn rhannu pensiwn a wnaed wrth ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil. |
| **Aelod gohiriedig** | Aelod sydd â hawl i Bensiwn Gohiriedig dan Gynllun 2015. |
| **Aelod gweithredol** | Aelod mewn gwasanaeth pensiynadwy. Cymerir bod aelod ar seibiant gyrfa neu absenoldeb di-dâl dim mwy na 5 mlynedd yn Aelod Gweithredol. |

| | |
|---|---|
| **Aelod o lu heddlu** | Mae aelod o lu heddlu yng Nghymru a Lloegr yn golygu aelod o lu cartref, aelod o lu heddlu heblaw llu heddlu cartref, cyn-aelod o lu heddlu cartref, neu gyn-aelod o lu heddlu heblaw llu heddlu cartref. |
| **Aelod o lu heddlu cartref** | Aelod o lu heddlu a gynhelir dan Adran 2 o Ddeddf Heddlu 1996, aelod o'r llu heddlu metropolitan neu aelod o lu heddlu Dinas Llundain. |
| **Aelod trosiannol** | Aelodau Trosiannol yw'r rhai oedd â hawliau wedi eu crynhoi dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 a ddaeth yn aelodau o Gynllun 2015. |
| **Amodau clwb** | Yr amodau cymharol ffafriol y gall buddion a grynhowyd gael eu trosglwyddo i mewn i Gynllun 2015 neu allan ohono i gynllun pensiwn sector cyhoeddus arall sy'n cymryd rhan yn y Clwb Trosglwyddo Sector Cyhoeddus neu ohono. |
| **Awdurdod pensiwn heddlu** | Yn nodweddiadol y Prif Gwnstabl neu'r Comisiynydd - Yn gyfrifol am weinyddu'r Cynllun yn lleol. Yr Awdurdod Pensiwn yr Heddlu ar gyfer y Prif Gwnstabl yw'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. |
| **Blwyddyn cynllun** | Sy'n golygu cyfnod o flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth. |
| **Bwlch yn eich gwasanaeth** | Yn golygu unrhyw gyfnod ar ôl diwrnod cyntaf aelod o Wasanaeth Addas dan Gynllun 2015 pan **nad** yw'r aelod mewn Gwasanaeth Addas neu ei fod wedi dewis eithrio o Gynllun 2015. |
| **Cronni** | Cronni yw'r modd y mae pensiwn yn tyfu gyda phob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth pensiynadwy. Cronni sengl yw pan fydd y buddion yn tyfu'n wastad am bob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy, fel yng Nghynllun 2006. Cronni dwbl yw pan fydd buddion yn tyfu yn fwy cyflym ar ôl cyfnod cychwynnol, fel yng |

| | |
|---|---|
| | Nghynllun 1987, pan fydd pob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy ar ôl i'r aelod gyrraedd 20 mlynedd o wasanaeth yn cyfrif ddwywaith. |
| **Cyfanswm y pensiwn a enillwyd a grynhowyd (ar gyfer cyfrifo pensiwn afiechyd)** | Mae hyn ar gyfer dibenion cyfrifo pensiwn afiechyd. I Aelod Trosiannol 2006 gyda gwasanaeth parhaus, cyfanswm y pensiwn a enillwyd a grynhowyd dan Gynllun 2015 a Chynllun 2006; neu i unrhyw aelod arall, y pensiwn a enillwyd a grynhowyd dan Gynllun 2015. |
| **Cyflog terfynol** | Yng nghyswllt cyfnod parhaus o wasanaeth pensiynadwy dan Gynllun 2015 mae'n golygu y mwyaf o swm Enillion Pensiynadwy aelod sy'n daladwy yng nghyswllt y 12 mis sy'n dod i ben ar ddiwrnod olaf y gwasanaeth pensiynadwy neu swm Enillion Pensiynadwy aelod o ran unrhyw Flwyddyn Cynllun yn y 10 mlynedd cyn y Flwyddyn Cynllun weithredol olaf. |
| **Cyfnod diogeliad sy'n cyfyngu** | Y cyfnod y mae Aelod Trosiannol yn parhau yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006 tu hwnt i 1 Ebrill 2015 cyn dod yn aelod o Gynllun 2015. |
| **Cyfnod gwasanaeth a grynhowyd (i gyfrifo pensiwn afiechyd)** | Os oes gan aelod wasanaeth yng Nghynllun 2006 yna mae'n gyfuniad o wasanaeth Cynllun 2006 a gwasanaeth yng Nghynllun 2015 fel arall dim ond y cyfnod o wasanaeth dan Gynllun 2015 sy'n cyfrif. |
| **Cyfnod parhaus o wasanaeth pensiynadwy** | Cyfnod o wasanaeth pensiynadwy dan y cynllun hwn gan ddiystyru unrhyw fwlch yn y gwasanaeth nad yw'n fwy na 5 mlynedd. |
| **Cyfnod talu** | Yn golygu'r cyfnod y gwneir un taliad o Enillion Pensiynadwy mewn cysylltiad ag ef. |
| **Cyllid a Thollau EM (HMRC)** | Adran y Llywodraeth sy'n awdurdod treth y Deyrnas Unedig. |

| | |
|---|---|
| **Cynllun 1987** | Y Cynllun a gyfansoddwyd gan Reoliadau Pensiynau Heddlu 1987 – SI 1987/257 |
| **Cynllun 2006** | Y Cynllun a gyfansoddwyd gan Reoliadau Pensiynau heddlu 2006 – SI 2006/3415 |
| **Cynllun 2015** | Y Cynllun a gyfansoddwyd gan Reoliadau Pensiynau heddlu 2015 – SI2015/445 |
| **Cynllun CARE** | Mae CARE yn golygu Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrisio – mae CARE yn ffurf ar gynllun pensiwn buddion diffiniedig. Mae pensiwn aelod yn seiliedig ar Enillion Pensiynadwy ar draws ei yrfa ef neu hi yn hytrach nag Enillion Pensiynadwy yn agos at ei h/ymddeoliad. |
| **Cynllun clwb** | Yn golygu cynllun pensiwn galwedigaethol cofrestredig (heblaw cynllun cysylltiedig) sydd wedi cytuno i wneud a derbyn taliadau gwerth trosglwyddo dan y trefniadau trosglwyddo clwb. |
| **Cynllun iawndal** | Mae hyn yn golygu'r cynllun sy'n cael ei gynnwys yn y penderfyniad a wnaed dan reoliad 14A o Reoliadau 2003 (Atodiad DA) sy'n darparu ar gyfer talu cyfandaliad iawndal i aelod o lu heddlu ar ymddeoliad gwirfoddol. |
| **Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig** | Trefniant pensiwn pan fydd cysylltiad rhwng y pensiwn sy'n cael ei dalu â chronfa bensiwn yr unigolyn wrth ymddeol, sy'n cael ei bennu gan y cyfraniadau a wnaed a'r enillion ar y buddsoddiad y maent wedi ei gynhyrchu (yn hytrach na chynllun buddion diffiniedig, a elwir hefyd yn gynllun cyflog terfynol, pan fydd y pensiwn yn gysylltiedig ag enillion yr unigolyn neu ryw werth arall |

| | |
|---|---|
| | a osodwyd ymlaen llaw). |
| **Cynllun Pensiwn Heddlu Gogledd Iwerddon 2015** | Cynllun a sefydlwyd dan y Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 2014 ar gyfer talu pensiynau ymddeoliad i neu yng nghyswllt aelodau o'r llu heddlu yng Ngogledd Iwerddon sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2015. |
| **Cynllun Pensiynau'r Heddlu yr Alban 2015** | Cynllun a sefydlwyd dan adran 1 Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ar gyfer talu pensiynau ymddeoliad i neu yng nghyswllt aelodau o'r llu heddlu yn yr Alban sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2015. |
| **Dibynnydd** | Rhywun sy'n dibynnu ar yr aelod – naill ai yn ariannol, neu oherwydd bod nam meddyliol neu gorfforol arnynt. |
| **Diogeliad trosiannol llawn** | Os oeddech yn bodloni meini prawf penodol ar 1 Ebrill 2012 ac ar 31 Mawrth 2015, byddwch yn aros yng Nghynllun 1987 neu Gynllun 2006 (fel sy'n briodol) ac ni fyddwch yn dod yn aelod o Gynllun 2015. Nodir y meini prawf cymhwyso yn y Fframwaith Dylunio Diwygiad dyddiedig 4 Medi 2012:https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/117692/reform-design-framework.pdf |
| **Dolen cyflog terfynol** | Os oes gan yr aelod fuddion dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006 a dan Gynllun 2015 ac ar yr amod nad oes gan yr aelod fwlch yn ei wasanaeth sy'n fwy na 5 mlynedd, diogelir buddion cyflog terfynol yr aelod yn ei Gynllun Cyflog Terfynol (Cynllun 1987 neu Gynllun 2006). Pan fydd yr aelod yn ymddeol, bydd ei fuddion Cyflog Terfynol yn cael eu cyfrifo trwy ddefnyddio'r Enillion Pensiynadwy y mae yn eu hennill dan Gynllun 2015 yn hytrach na'r cyflog yr oedd arno pan adawodd Gynllun 1987 neu Gynllun 2006. |
| **Enillion** | Elfennau o'ch enillion sy'n bensiynadwy ac y telir cyfraniadau |

| | |
|---|---|
| **pensiynadwy** | pensiwn arnynt. Cyfrifir y pensiwn dan Gynllun 2015 trwy gyfeirio at Enillion Pensiynadwy. Ar hyn o bryd mae Enillion Pensiynadwy yn cynnwys Cyflog sylfaenol, pwysau Llundain, cynnydd mewn cyflog wrth gael dyrchafiad dros dro, cyflog dros dro a Thaliadau Trothwy yn Gysylltiedig â Medr (yr olaf i'w ddirwyn i ben erbyn Ebrill 2016). |
| **Goroeswr** | Yng nghyswllt aelod a fu farw, mae'n golygu oedolyn a phlant/phlentyn cymwys aelod sy'n goroesi. |
| **Gostyngiad actwaraidd** | Mae pensiwn ymddeoliad dan Gynllun 2015 yn daladwy heb Ostyngiad Actwaraidd pan fydd Aelod Gweithredol yn ymddeol ar ei NPA. Mae Pensiynau Gohiriedig yn daladwy heb Ostyngiad Actwaraidd ar SPA. Ond, os bydd aelodau yn dymuno gadael y llu heddlu a chymryd eu pensiwn yn gynharach, gallant gymryd pensiwn wedi ei ostwng yn actwaraidd o'u NMPA. Gweithredir y gostyngiad hwn oherwydd bod y pensiwn yn cael ei dalu yn gynharach ac felly mae i gael ei dalu am fwy o amser.<br><br>Bydd y Gostyngiad Actwaraidd yn cael ei bennu yn gyson ar sail actwaraidd ac felly bydd yn newid o bryd i'w gilydd. Rheol gyffredinol ar gyfer Gostyngiad Actwaraidd yw y bydd rhwng 4% a 5% (cronnol) am bob blwyddyn y bydd y pensiwn yn cael ei gymryd yn gynnar.<br><br>Nid yw Gostyngiadau Actwaraidd yn cael eu gweithredu ar bensiynau a delir yn gynnar ar sail afiechyd. |
| **Gostyngiad taliad cynnar** | Gostyngiad actwaraidd yw hwn a weithredir wrth gyfrifo cyfradd flynyddol y pensiwn os bydd yr aelod yn cymryd pensiwn ymddeoliad yn gynnar. |

| | |
|---|---|
| **Gwaith arferol** | Gwaith am gyfartaledd blynyddol o 30 awr yr wythnos o leiaf |
| **Gwasanaeth addas** | Gwasanaeth mewn llu heddlu yw hwn. Mae gwasanaeth addas yn cynnwys Seibiant Gyrfa (os yw'n fwy na 5 mlynedd neu beidio) ac unrhyw gyfnod o absenoldeb di-dâl nad yw'n fwy na 5 mlynedd. |
| **Gwasanaeth cymwys** | Gwasanaeth pensiynadwy sydd yn ddigon hir i wneud aelod yn gymwys i dderbyn pensiwn ymddeoliad. Mae Gwasanaeth Cymwys yn golygu hyd calendr unrhyw gyfnod parhaus o wasanaeth pensiynadwy dan Gynllun 2015 (heb gynnwys unrhyw fwlch mewn gwasanaeth, unrhyw seibiant gyrfa neu unrhyw gyfnod o wyliau di-dâl), ac unrhyw wasanaeth pensiynadwy blaenorol neu waith yr ydych wedi ei drosglwyddo i Gynllun 2015 ac, os yw'n berthnasol, eich cyfnod o wasanaeth pensiynadwy dan Gynllun 1987 neu Gynllun 2006. |
| | |
| **Gwasanaeth disgwyliedig** | Cyfnod tybiedig o wasanaeth pensiynadwy hyd NPA. |
| **Gwasanaeth pensiynadwy** | Gwasanaeth yw hwn sy'n eich cymhwyso ar gyfer pensiwn dan gynllun pensiwn.  Dan Gynllun 2015 nid oes uchafswm o ran hyd gwasanaeth pensiynadwy. |
| **Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP)** | Y lleiafswm o bensiwn y mae'n rhaid ei ddarparu gan gynllun cysylltiedig â chyflog sydd wedi ei gontractio allan (fel cynlluniau 1987, 2006 a 2015). Mae'r GMP yn fras yn cyfateb i Gynllun Pensiwn Cysylltiedig ag Enillion y Wladwriaeth (SERPS) a fyddai wedi bod yn daladwy petai cynlluniau'r heddlu heb eu contractio allan. (Mae pensiynau'r heddlu bob amser yn cyfateb i'r GMP neu yn fwy). Mae GMP yn daladwy fel rhan o bensiwn heddlu aelod ac nid yn ychwanegol ato. |
| **Lleiafswm** | 55 oed – fel y gwelir yn adran 279(1) Deddf Cyllid 2004. |

| | |
|---|---|
| **Pensiwn Arferol (NMPA)** | |
| **Oedran Pensiwn Arferol (NPA)** | Yr oedran pan fydd pensiwn ymddeol (heblaw pensiwn gohiriedig neu bensiwn afiechyd) yn cael ei dalu heb Ostyngiad Actwaraidd. |
| **Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (SPA)** | Yr oedran pan fydd unigolyn yn gallu hawlio ei Bensiwn y Wladwriaeth ef/hi. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/310231/spa-timetable.pdf |
| **Partner a ddatganwyd** | Rhywun y mae'r aelod yn byw gydag ef neu hi y mae ganddynt berthynas ymrwymol a thymor hir, ond nad yw yn briod neu bartner sifil, ac y mae'r aelod wedi llenwi datganiad priodol (gweler adran 10 'Buddion i oroeswyr os byddwch yn marw') |
| **Partner sifil** | Unigolyn o'r un rhyw y mae aelod wedi ffurfio y berthynas gyfreithiol o bartneriaeth sifil trwy gofrestru ag ef neu hi. |
| **Pensiwn gohiriedig** | Y pensiwn a gedwir yng Nghynllun 2015 o ran rhywun sydd wedi gadael yr heddlu neu ddewis eithrio cyn yr oedran y byddai pensiwn yn daladwy iddynt fel arfer – mae'r rhain yn cael eu gohirio yn yr ystyr nad ydynt yn daladwy wrth adael y llu heddlu ond ar ddyddiad yn y dyfodol. Gall yr aelod hefyd gymryd Pensiwn Gohiriedig yn gynnar o 55 oed gyda Gostyngiad Actwaraidd.<br><br>Gall Pensiwn Gohiriedig hefyd gael ei dalu yn gynnar heb Ostyngiad Actwaraidd os bydd yr aelod yn anaddas yn feddygol yn barhaol am waith arferol. |
| **Pensiwn personol** | Pensiwn cyfraniadau diffiniedig sy'n cael ei ddarparu trwy gontract rhwng unigolyn a darparwr pensiwn. |

| | |
|---|---|
| **Pensiwn ychwanegol** | Mae gan Aelodau Gweithredol y cyfle i gynyddu eu pensiwn trwy dalu cyfraniadau ychwanegol. |
| **Pensiwn ymddeoliad** | Yng Nghynllun 2015, pensiwn sy'n daladwy i aelod sy'n ymddeol ar neu ar ôl cyrraedd ei NPA. Er y gall gael ei dalu o NMPA yn amodol ar Ostyngiad Actwaraidd. Mae'n cynnwys pensiwn afiechyd a Phensiwn Gohiriedig. |
| **Priod** | Yr unigolyn y mae'r aelod wedi ei briodi (gan gynnwys priodasau o'r un rhyw). |
| **Rheoliadau Buddion Niwed yr Heddlu** | Ar hyn o bryd Rheoliadau Heddlu (Buddion Niwed) 2006 sy'n darparu ar gyfer talu buddion niwed i aelodau llu heddlu yng Nghymru a Lloegr. |
| **Seibiant Gyrfa (a gymeradwywyd)** | Mae'n golygu cyfnod o absenoldeb di-dâl boed yn fwy na 5 mlynedd neu beidio y cytunir arno gan y cyflogwr yn unol â Rheoliad 33 ac Atodiad OO o Reoliadau'r Heddlu 2003. |